


Arolwg Defnydd Llety
Cymru
Adroddiad Blynyddol
2011



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	1
Cyflwyniad	13
Gwestai.....	14
Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast.....	28
Pob Llety â Gwasanaeth	42
Bythynnod a Rhandai Hunanddarpar	44
Cartrefi Gwylliau Carafán a Chabannau.....	58
Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla.....	62
Hostelau a Thai Bynciau	66
Atodiad 1: Gwestai	71
Atodiad 2: Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast.....	74
Atodiad 3: Llety Hunanddarpar	77
Atodiad 4: Methodoleg.....	78
Atodiad 5: Ffurflenni Misol	83

Crynodeb Gweithredol


Cynhaliwyd arolwg defnydd ymysg darparwyr llety gwesty gyda graddiad yn ddi-dor ers 1972 i fonitro lefelau'r galw am ystafelloedd a gwelyau gwestai yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion Cyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, cafodd yr arolwg ei ymestyn yn 1997 i gynnwys pob llety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety â gwasanaeth heb eu graddio.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanddarpar mewn gwahanol fformatau ers 1987. Ers 2003, fodd bynnag, defnyddiwyd yr un fethodoleg a meddalwedd i ddadansoddi'r data. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafán a pharciau carafanau teithiol a gwersylla. Yn ychwanegol, yn 2008, cafodd hostelau a thai bynciau hefyd eu cynnwys o fewn cwmpas yr arolwg.


Gwestai

Yn 2011 roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn 42% a chyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn 59%. Mae'r ffigur o 42% yn ostyngiad bychan o un pwynt canran ar gyfradd gyfartalog defnydd gwelyau a gofnodwyd yn 2010 (43%) tra bod cyfradd cyfartalog defnydd ystafelloedd wedi aros ar yr un lefel ag yn 2010.

Ffigur 1-1 - Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynyddol (%)




Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sector gwestai yn 2011 yn Ffigur 1-1 ar y dudalen nesaf.

Ffigur 1-2 - Gwestai - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd – 2011 (%)

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, parhaodd y cyfraddau defnydd a adroddwyd yn 2011 i adlewyrchu natur dymhorol y sector gwestai. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn 27% yn Ionawr 2011 cyn codi i frig o 52% ym mis Awst a gostwng i 31% yn Rhagfyr. Yn yr un modd, roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn uwch yn ystod misoedd yr haf, gyda chyfraddau o 67% i 69% wedi'u cofnodi rhwng Mehefin a Medi, gyda'r cyfraddau isaf wedi'u cofnodi yn Ionawr a Rhagfyr (40% a 44% yn yr un drefn).

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae Ffigur 1-3 islaw'n cyflwyno cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru.

Ffigur 1-3 - Gwestai - Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2011 (%)

Yn 2011, cofnododd y Canolbarth a'r De Ddwyrain gyfraddau cyfartalog blynyddol o 41% ar gyfer defnydd gwelyau, tra bod cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau y De Ddwyrain yn 38% a'r Gogledd yn 48%. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, y De Ddwyrain gofnododd y gyfradd isaf ar gyfer

defnydd gwelyau, sydd ar 38% bedwar pwynt canran yn is na'r hyn a gofnodwyd yn y rhanbarth yn 2010 (42%).

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd mwy o amrywiad rhwng y rhanbarthau pan gânt eu dadansoddi yn ôl eu cyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd. Cofnododd sefydliadau yn y Gogledd a'r De Ddwyrain gyfartaleddau blynyddol tebyg o 61% yr un, tra cofnododd sefydliadau yn y De Orllewin gyfartaledd blynyddol o 51% a'r rhai yn y Canolbarth y cyfartaledd blynyddol isaf o 54%.

Canran Gwesteion Tramor

Yn ôl y disgwyl, roedd defnydd tramor ar ei uchaf yn ystod y prif dymor twristiaeth. Cofnodwyd cyfartaledd o 5%-6% rhwng Mai a Medi 2011, gyda brig o 7% yng Ngorffennaf 2011. Y ganran isaf a gofnodwyd drwy gydol y flwyddyn oedd 3% yn Rhagfyr, tra bod y gyfran gyfartalog flynyddol o westeion tramor yn 5%. Cofnodwyd y cynnydd mwyaf yn y canran o westeion tramor yn Ionawr 2011 (6% o gymharu gyda 4% yn Ionawr 2010), tra bod cyfraddau yn is yn Hydref (4%) a Thachwedd (4%) 2011 o gymharu gyda'r un misoedd yn 2010 (6% a 5% yn yr un drefn).

Canran Gwesteion Busnes

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y canran o westeion tramor ar ei uchaf ar ddechrau a diwedd y flwyddyn, tueddiad i wrthwyneb yr un ar gyfer cyfraddau defnydd cyffredinol, ond yn un sydd wedi sefydlu ar gyfer cyrchfannau'r Deyrnas Unedig. Roedd y gyfran o westeion busnes a gofnodwyd yn Ionawr 2011 yn 29%, cyfradd a ostyngodd i'w hisafbwynt yn Ebrill ac Awst 2011 (9%) cyn cynyddu i 21% yn Nhachwedd, gyda gostyngiad i 14% yn Rhagfyr. Mae'n debygol y bydd cynnydd mewn defnydd hamdden wedi effeithio ar y ffigurau yn Ebrill a Rhagfyr gan adlewyrchu amseriad y Pasg a'r Briodas Frenhinol yn Ebrill a chyfnod gwyliau'r Nadolig ym mis Rhagfyr.

Cafodd 2011 ddechrau cryf yn nhermau defnydd busnes gyda chynnydd o saith pwynt canran wedi'i gofnodi yn Ionawr o gymharu gyda'r un mis yn 2010 (22% i 29%). Cofnodwyd y gostyngiad mwyaf yn Rhagfyr 2011 pan gofnodwyd cyfradd o 14% o gymharu â chyfradd o 20% am yr un mis yn 2010.

Defnydd yn ôl Maint Gwesty

Mewn blynyddoedd blaenorol, cofnodwyd cyd-berthynas gadarnhaol yn nhermau maint, a fesurwyd gan nifer yr ystafelloedd gwely a chyfraddau defnydd gwelyau, tueddiad oedd yn llai amlwg yn 2011 gyda chyfraddau defnydd yn yr ystod 41% - 44% yn cael eu cofnodi ar draws y gwahanol gategoriau maint. Fodd bynnag, mae'r data yn arddangos cyd-berthynas dda rhwng maint gwesty a chyfraddau defnydd ystafelloedd. Cofnododd gwestai gyda rhwng 51 a 100 ystafell gyfradd gyfartalog defnydd gwelyau o 65% a rhai gyda dros 100 gyfradd o 63% o gymharu gyda 52% ymysg rhai gyda 4 i 10 ystafell.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, gallai nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at y gyd-berthynas gadarnhaol yma. Roedd gwestai mwy yn tueddu i fod ar agor drwy'r flwyddyn ac yn fwy tebygol o farchnata eu sefydliadau mewn modd rhagweithiol. Hefyd, mae llawer ohonynt wedi eu lleoli mewn dinasoedd a threfi mawr, gan eu gwneud yn fwy tebygol i fod â gwesteion busnes yn defnyddio ystafelloedd sengl ar ddyddiau'r wythnos.

Rhwng 2010 a 2011, sefydliadau gyda rhwng 4 a 10 ystafell gofnododd y cynnydd mwyaf yn eu defnydd ystafell gyfartalog, gyda chyfradd 2011 o 52% yn saith pwynt canran yn uwch na chyfradd 2010 o 45% a'r gyfradd uchaf a gofnodwyd ar gyfer y sefydliadau hyn ers 2001.

Defnydd yn ôl Tariff

Yn gyffredinol, cofnodwyd perthynas gadarnhaol rhwng y tariff a godir¹ a lefelau defnydd ar gyfer gwestai eto yn 2011. Sefydliadau'n codi £50-£59.99 gofnododd y gyfradd defnydd flynyddol gyfartalog uchaf (47%), fodd bynnag, ar 42% roedd y gyfradd ar gyfer gwestai'n codi £60 neu fwy ddeg pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd gan y rhai'n codi £30-£39.99. Pan y'u dadansoddir yn ôl defnydd ystafell, roedd cydberthynas yn amlwg, gyda chyfradd o 60% wedi'i chofnodi gan westai'n codi £50-£59.99 a rhai'n codi £60 neu fwy o gymharu gyda 45% ar gyfer sefydliadau'n codi £30-£39.99. Mae'n debygol i westai yn y bandiau tariff uchaf ddenu cyfran uwch o westeion busnes ac felly'n aros mewn ystafelloedd defnydd sengl.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r bandiau tariff, roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn debyg i'r hyn a gofnodwyd yn 2010. Roedd y cynnydd mwyaf bedwar pwynt canran ar gyfer rhai'n codi £40-£49.99 a ddaeth â chyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd ar gyfer y sefydliadau hyn i 59%, yr uchaf a gofnodwyd ers 2003.

Defnydd yn ôl Lleoliad

Cafodd cyfraddau defnydd eu dadansoddi yn ôl lleoliad y gwesty – mewn dinas/tref fawr, tref fach, ar lan y môr neu mewn ardal wledig/pentref.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr gofnododd y cyfraddau blynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 2011 (62%). Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, fodd bynnag, sefydliadau mewn ardaloedd glan môr gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf o 45%. Cofnodwyd y gyfradd defnydd gwelyau cyfartalog isaf ar gyfer gwestai mewn trefi bach (38%), a chofnodwyd y gyfradd cyfartalog isaf ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer gwestai mewn lleoliadau gwledig/pentref (55%). Yn 2011, cofnodwyd y gwahaniaethau mwyaf rhwng cyfraddau defnydd cyfartalog gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer sefydliadau mewn trefi bach, gwahaniaeth o 22 pwynt canran ac mewn trefi/dinasoedd mawr (21 pwynt canran).

Yn dilyn cyfnod o sefydlogrwydd rhwng 2006 a 2008, mae cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd ar gyfer gwestai mewn dinasoedd/trefi mawr wedi gostwng flwyddyn-ar-flwyddyn ers 2008, gyda'r gostyngiad o bedwar pwynt canran yn 2011 yn golygu fod y gyfradd hon (62%) yr isaf a gofnodwyd ers 2001. Cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol lleoliadau gwledig/pentref o 53% i 55%, tra bod y cyfraddau ar gyfer rhai mewn trefi bach ac ardaloedd glan môr yn debyg yn 2011 i'r rhai a gofnodwyd yn 2010 gyda gostyngiad o un pwynt canran a chynnydd o un pwynt canran yn yr un drefn dros y cyfnod hwn.

Defnydd o fewn Graddiad

Ers 1999, cafodd cyfraddau defnydd ar gyfer gwestai eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru (gynt Bwrdd Croeso Cymru).

O fewn cynllun graddiad Croeso Cymru, gwestai gyda'r graddiad seren uchaf gofnododd y cyfartaleddau blynyddol uchaf, gyda chyfraddau o 57% a 73% ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn yr un drefn Rhwng 2010 a 2011, cofnodwyd cynnydd o bump a chwe phwynt canran yn yr un drefn ar gyfer rhai

¹ Mae'r ffigurau tariff a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godwyd fesul person am ystafell ddwbl neu efell, yn cynnwys brecwast.


gyda graddiad 2 a 5 seren tra cofnododd rhai gyda 4 seren ostyngiad o 64% yn 2010 i 60% yn 2011. Cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau heb eu graddio o 52% yn 2010 i 54% yn 2011.

Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Yn gyffredinol, nid yw cyfraddau defnydd Tai Llety a sefydliadau Gwely a Brecwast hyd yma wedi adfer o effeithiau'r dirwasgiad economaidd. Gostyngodd y cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd gan un pwynt canran yn 2011 i 28%, a gostyngodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd gan dri phwynt canran i 34%. Dyma'r cyfraddau defnydd isaf a gofnodwyd dros y deng mlynedd diwethaf.


Ffigur 1-4 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynyddol (%)



Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir cyfraddau defnydd misol ystafelloedd a gwelyau ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sector tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn 2011 yn Ffigur 1-5 islaw.


Ffigur 1.5 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd - 2011 (%)



Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae natur dymhorol y sector yn amlwg gyda'r cyfraddau cyfartalog defnydd gwelyau ar eu huchaf ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn ystod y prif dymor twristiaeth (Mai i Fedi). Amrywiodd lefelau defnydd gwelyau o 10% yn Ionawr i frig o 53% yn Awst cyn gostwng i 10% yn Rhagfyr. Roedd lefelau defnydd ystafelloedd yn dilyn patrwm tebyg gan ddringo o 13% yn Ionawr i 57% yn Awst cyn gostwng i 13% yn Rhagfyr 2011.

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Ffigur 1-6 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarthau - 2011 (%)



Roedd y cyfraddau cyfartalog blynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd uchaf yn rhanbarth y De Orllewin (34% a 37% yn yr un drefn). Cofnododd sefydliadau yn y Gogledd gyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau o 30% tra cofnodwyd cyfraddau is gan y rhai yn y De Ddwyrain (21%) a'r Canolbarth (26%). Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau yn y De Ddwyrain yn 25%, cyfran is nag a gofnodwyd ar gyfer pob un o'r tri rhanbarth arall.

Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn y Canolbarth ddau bwynt canran yn uwch yn 2011 nag yn 2010 (34% a 32% yn yr un drefn) tra gostyngodd cyfradd y Gogledd gan bedwar pwynt canran (i 35%) a gostyngodd y gyfradd ar gyfer De Orllewin gan ddau bwynt canran dros yr un cyfnod. Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer y De Ddwyrain yn 13 pwynt canran yn is nag yn 2010 a'r gyfradd isaf a gofnodwyd ers 2001. Dylid cadw mewn cof fod maint y sampl ar gyfer defnydd busnes yn ardal y De Ddwyrain yn isel ac na wnaeth pawb o'r rhai sy'n cyflenwi wneud hynny ar gyfer pob mis, ac felly mae angen gofal wrth drin y canlyniadau.

Canran Gwesteion Tramor

Yn 2008, roedd newid bach yn y ffordd y cesglir y data ar gyfer gwesteion tramor gan y diweddarwyd y ffurflenni a ddefnyddiwyd i gasglu data defnydd i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Effeithiodd un o'r newidiadau hyn ar y ffordd y cesglir gwybodaeth ar westeion tramor. Mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y cyraeddiadau newydd ar gyfer pob diwrnod (yn y Deyrnas Unedig a thramor) a chyflwynwyd y canran o westeion tramor, yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cyraeddiadau. Ni chaiff yr wybodaeth hon ei chasglu erbyn hyn ac fel canlyniad caiff y gyfran o arosiadau tramor ei gyflwyno fel canran o nosweithiau gwely tramor (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Er bod cyfartaleddau blynyddol gwesteion tramor yn debyg yn 2010 a 2011 (12% a 11% yn yr un drefn), roedd mwy o amrywiad mewn cyfraddau misol. Cofnodwyd y gwahaniaethau mwyaf yn Ionawr a Rhagfyr 2011, lle gostyngodd y canran o westeion tramor gan 5 a 13 pwynt canran yn yr un drefn.

Defnydd yn ôl maint Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast

Fel y nodwyd yn flaenorol ar gyfer gwestai, byddai'n ymddangos fod cydberthynas gadarnhaol rhwng cyfraddau defnydd a maint sefydliad. Cofnododd sefydliadau gyda 4-10 ystafell gyfraddau defnydd cyfartalog o 31% ar gyfer gwelyau a 37% ar gyfer ystafelloedd o gymharu gyda 23% a 27% yn yr un drefn ymysg rhai gyda 1-3 ystafell. Mae'n debyg bod y defnydd uwch ymysg y sefydliadau hyn yn ganlyniad nifer o ffactorau yn cynnwys y ffaith fod sefydliadau mwy yn debycach fod ar agor drwy'r flwyddyn a hefyd o ddenu gwesteion busnes.

Roedd cyfradd flynyddol gyfartalog defnydd ystafelloedd yn is ar gyfer sefydliadau gyda 1-3 a 4-10 ystafell yn 2011 o gymharu gyda chyfraddau cymharol yn 2010. Roedd y cyfraddau ar gyfer y ddau fand maint yn debyg i'r rhai a gofnodwyd yn 2001.

Defnydd yn ôl Tariff

Er yr ymddangosai fod cydberthynas gadarnhaol mewn blynyddoedd blaenorol rhwng lefelau tariff a defnydd, ymddangosai i dariff gael llai o ddylanwad ar ddefnydd yn 2011. Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau'n codi £30 neu fwy yn yr ystod 29%-30% yn 2011, tra bod cyfradd blynyddol gyfartalog defnydd ystafelloedd rhwng 34% a 35%.

Rhwng 2010 a 2011, cofnodwyd gostyngiad o bedwar pwynt canran yn y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer rhai'n codi £20-£29.99, tra gostyngodd y gyfradd ar gyfer y rhai'n codi £30-£39.99 gan ddau bwynt canran ac i'r rhai'n codi £40-£49.99 gan dri phwynt canran dros yr un cyfnod. Roedd y gostyngiad mwyaf ar gyfer sefydliadau'n codi £60 a throsodd (20 pwynt canran), er bod maint y sampl ar gyfer y sefydliadau hyn yn fach felly dylid cymryd gofal gydag amrywiadau.

Defnydd yn ôl Lleoliad

Fel yn 2010, roedd y cyfraddau defnydd cyfartalog blynyddol uchaf mewn ardaloedd glan môr yn 2011 (35% a 42% yn yr un drefn) ond fe'u dilynwyd gan drefi bach (33% a 44% yn yr un drefn) yn 2011. Cynyddodd cyfradd defnydd cyfartalog blynyddol ar gyfer sefydliadau mewn trefi bach gan saith pwynt canran yn 2011 i 44%, y gyfradd uchaf a gofnodwyd ar gyfer y sefydliadau hyn dros y deng mlynedd diwethaf. Cofnododd y sefydliadau hynny mewn ardaloedd glan môr ostyngiad o bedwar pwynt canran rhwng 2010 a 2011 (46% i 42%), fel y gwnaeth y rhai mewn ardaloedd cefn gwlad/pentref (34% i 30%).

Defnydd yn ôl Graddiad

Roedd cyd-berthynas gyffredinol gadarnhaol rhwng lefel defnydd a graddiad, gyda sefydliadau heb eu graddio'n cofnodi'r cyfraddau blynyddol cyfartalog isaf ar gyfer defnydd gwelyau o 18% a 24% yn yr un drefn. Cofnododd sefydliadau gyda graddiad 5 seren gyfradd blynyddol cyfartalog is ar gyfer defnydd gwelyau na rhai gyda 4 seren (30% a 33% yn yr un drefn), gyda dim ond gwahaniaeth bach iawn wedi'i gofnodi yng nghyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer y categorïau graddio hyn yn 2011 (36% a 35% yn yr un drefn).

Rhwng 2010 a 2011, cofnodwyd y gostyngiad mwyaf ar gyfer sefydliadau gyda graddiad 5 seren (43% yn 2010 i 35% yn 2011), y gyfradd isaf a gofnodwyd ers 2008. Cofnododd sefydliadau pedair seren ostyngiad o dri phwynt canran dros y cyfnod hwn, tra gostyngodd y gyfradd ar gyfer sefydliadau 3 seren o 36% i 31%. Sefydliadau heb eu graddio gofnododd y gostyngiad lleiaf o ddau bwynt canran yn eu cyfradd cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd rhwng 2010 a 2011.

Pob Llety

Mae'r gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer pob llety â gwasanaeth wedi parhau'n gyson ar 38% am y pedair blynedd ddiwethaf. Yn yr un modd, bu cyfradd flynyddol gyfartalog defnydd gwelyau yn 52% am y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae natur dymhorol unwaith eto'n amlwg yn y cyfraddau defnydd misol ar gyfer pob llety â gwasanaeth. Rhwng Mai a Medi, roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn yr ystod 47% - 53% tra bod cyfradd cyfartalog defnydd ystafelloedd yn yr ystod 58% - 65% yn yr un cyfnod. Mae effaith cyfnod gwyliau'r Pasg a'r Briodas Frenhinol yn glir, gyda chynnydd o wyth pwynt canran yng nghyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd ac ystafelloedd rhwng Mawrth ac Ebrill 2011.

Mae canran blynyddol cyfartalog gwesteion tramor wedi parhau am 7% am y pedair blynedd ddiwethaf. Bu peth amrywiad pan y'u dadansoddwyd yn ôl misoedd unigol dros y pedair blynedd ddiwethaf, yn arbennig tu allan i'r prif dymor twristiaeth.


Llety hunanddarpar

Bythynnod a Rhandai

Defnydd Misol Unedau

Mae Ffigur 1-7 islaw'n cyflwyno cyfraddau defnydd blynyddol ar gyfer 2008 i 2011 ar draws gweithredwyr annibynnol a hefyd asiantaethau.

Ffigur 1-7- Defnydd Misol Unedau - Bythynnod a Rhandai CYFAN (%)



Mae'r gyfradd fisol ar gyfer defnydd pob math o uned yn 2011, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn amrywio'n sylweddol ar hyd y flwyddyn, gan adlewyrchu natur dymhorol y sector. Roedd cyfradd defnydd unedau misol Ionawr 2011 yn 29%, ffigur a gynyddodd i 85% yn Awst cyn gostwng i 31% yn

Nhachwedd a 32% yn Rhagfyr. Rhwng Mawrth ac Ebrill 2011 cynyddodd y gyfradd fisol yma gan 25 pwynt canran, gan adlewyrchu effaith cyfnod gwyliau'r Pasg a'r Briodas Frenhinol. 54% oedd cyfartaledd blynyddol pob uned yn 2011.

Tabl 1-1 - Defnydd Misol Unedau - Bythynnod a rhandai - Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2007	2008	2009	2010	2011
Ionawr	22	23	24	22	24
Chwefror	40	40	39	34	39
Mawrth	43	43	37	36	32
Ebrill	54	48	55	56	62
Mai	69	61	62	58	60
Mehefin	76	67	70	67	59
Gorffennaf	86	76	80	73	69
Awst	93	87	88	86	87
Medi	73	69	72	67	69
Hydref	60	52	55	49	48
Tachwedd	32	26	27	27	25
Rhagfyr	39	42	36	34	30
<i>Cyfartaledd Mai – Hydref</i>	<i>76</i>	<i>69</i>	<i>71</i>	<i>67</i>	<i>65</i>
<i>Cyfartaledd blynyddol</i>	<i>57</i>	<i>53</i>	<i>54</i>	<i>51</i>	<i>50</i>


Roedd cyfradd gyfartalog defnydd unedau gweithredwyr annibynnol yn 2011 yn 50%, gostyngiad bychan ar gyfradd 2010 o 51% a'r isaf a gofnodwyd ar gyfer y categori hwn o weithredwyr ers 2007. Bu gostyngiad bychan hefyd yng nghyfartaledd Mai i Hydref o 67% yn 2010 i 65% yn 2011, eto'r gyfradd isaf a gofnodwyd yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Pan y'u dadansoddir yn ôl mis, cofnodwyd y gostyngiadau mwyaf rhwng 2010 a 2011 ar gyfer misoedd Mawrth (pedwar pwynt canran), Mehefin (wyth pwynt canran) a Gorffennaf (pedwar pwynt canran). Fodd bynnag, fe wnaeth y flwyddyn ddechrau'n fwy cadarnhaol nag yn 2010, gyda chyfraddau Ionawr a Chwefror (24% a 39% yn yr un drefn) yn uwch na'r rhai a gofnodwyd yn yr un misoedd yn 2010 (22% a 34% yn yr un drefn). Gall hyn fod wedi bod oherwydd amodau tywydd gwell ddechrau 2011 o gymharu â dechrau 2010.

Tabl 1-2 - Defnydd Misol Unedau - Bythynnod a Rhandai - Asiantaethau (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau			
	2008	2009	2010	2011
Ionawr	24	16	13	34
Chwefror	36	45	35	46
Mawrth	35	44	39	44
Ebrill	47	49	44	64
Mai	51	52	49	69
Mehefin	51	43	56	70
Gorffennaf	59	54	64	73
Awst	78	63	78	84
Medi	58	51	56	75
Hydref	44	36	21	62
Tachwedd	23	17	20	40
Rhagfyr	29	57	38	34
<i>Cyfartaledd Mai – Hydref</i>	<i>57</i>	<i>50</i>	<i>54</i>	<i>72</i>
<i>Cyfartaledd blyneddol</i>	<i>45</i>	<i>44</i>	<i>43</i>	<i>58</i>

Yn 2011, amrywiai cyfradd fisol defnydd unedau a osodwyd gan asiantau rhwng 34% yn Ionawr a 84% yn Awst i 34% yn Rhagfyr. Fel gyda gweithredwyr annibynnol, cofnododd unedau a osodwyd gan asiantaethau gynnydd rhwng Mawrth ac Ebrill 2011 (o 44% i 64%), gan adlewyrchu cyfnod Gwyliau'r Pasg a'r Ŵyl Banc ychwanegol, gwell tywydd yn gynnar yn 2011 a newidiadau sampl² i gynnydd yn y cyfartaledd misol ar gyfer Ionawr, oedd 21 pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd am yr un mis yn 2011.

Cartrefi Gwyliau Carafan

Ffigur 1-8 - Defnydd Misol Unedau - Cartrefi Gwyliau Carafan (%)

Rhwng Mawrth ac Ebrill 2010, cynyddodd defnydd misol unedau cartrefi gwyliau carafán gan 61 pwynt canran, gan ddangos pwysigrwydd cyfnod gwyliau'r Pasg i'r sector llety yma, yn ogystal â'r Ŵyl Banc ychwanegol oherwydd y Briodas Frenhinol. Hefyd, mae'n debygol yr agorodd nifer fwy o safleoedd yn


² Mae'n bwysig nodi y cafwyd sampl llai yn 2011, yn bennaf oherwydd gweithredydd gyda nifer fawr o unedau a ddychwelodd ddata yn 2010 ond na wnaeth hynny yn 2011.

Ebrill i fanteisio ar gyfnod gwyliau'r Pasg a'r Wyl Banc. Rhwng Mai a Medi, amrywiodd cyfraddau cyfartalog unedau misol rhwng 79%-93%, gyda'r gyfradd uchaf yn Awst.


Ar 82%, roedd cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer 2011 saith pwynt canran yn uwch na chyfradd 2010 o 75% a dyma'r gyfradd ail uchaf a gofnodwyd am y cyfnod hwn ers 2007. Pan y'u dadansoddir yn ôl mis, yn dilyn gostyngiad o 22 pwynt canran ym Medi 2010, cynyddodd cyfradd gyfartalog defnydd unedau am y mis hwn gan 20 pwynt canran i 2011 i 84%. Roedd cyfradd 2011 ar gyfer Hydref (69%) 22 pwynt canran yn uwch nag ar gyfer yr un mis yn 2010, gyda nifer fawr o weithredwyr yn dychwelyd ffurflenni ar gyfer y mis hwn yn 2011.

Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla

Ffigur 1-9 - Defnydd Misol Lleiniau - Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla (%)



Yn dilyn gostyngiad yng nghyfartaledd Mai i Hydref rhwng 2008 a 2009 (53% i 39%), cofnodwyd cynnydd o naw pwynt canran yng nghyfartaledd 2010 (48%), cyfradd a barhaodd yn sefydlog yn 2011. Dylid rhoi ystyriaeth i feintiau cymharol fach y samplau ar gyfer y sector yma, ynghyd ag amrywiad posibl mewn arolygon rhwng blynyddoedd, wrth gymharu data.

*Hostelau a Thai Bynciau***Ffigur 1-10 - Defnydd Misol Gwelyau – Hostelau – (%)**

Roedd y gyfradd fisol ar gyfer defnydd gwelyau yn 16% yn Ionawr 2010. Cynyddodd y ffigur hwn i frig o 62% yng Ngorffennaf cyn gostwng i 23% yn Rhagfyr. Fel gyda sectorau llety eraill, roedd effaith gwyliau'r Pasg a'r Ŵyl Banc ychwanegol yn Ebrill yn amlwg, gyda chynnydd o 26 pwynt canran yng nghyfradd fisol defnydd gwelyau rhwng Mawrth ac Ebrill 2011 (28% a 54% yn yr un drefn). Erbyn diwedd prif dymor yr haf roedd cyfradd gyfartalog fisol defnydd gwelyau wedi gostwng yn sylweddol, gyda gostyngiad o 21 pwynt canran rhwng Awst (61%) a Medi (42%). Roedd y cyfartaledd blyneddol ar gyfer 2011 yn 40%, gostyngiad bach ar gyfraddau 2009 a 2010 o 41%.

Cyflwyniad

Cynhaliwyd arolwg defnydd yn ddi-dor ymysg darparwyr llety gwesty gyda graddiad ers 1972 er mwyn monitro lefelau'r galw am ystafelloedd a gwelyau gwestai yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion Cyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, estynnwyd yr arolwg yn 1997 i gynnwys yr holl lety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety gwasanaeth heb raddiad.

Bu gwahanol fformatau ar yr arolwg hunanddarpar ers 1987. Ers 2003, fodd bynnag, bu cysondeb yn y fethodoleg a'r feddalwedd a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r data. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafanau, parciau carafanau teithiol a gwersylla. Yn ychwanegol, yn 2008, cafodd hostelau a thai bynciau hefyd eu cynnwys o fewn cwmpas yr arolwg.

Lle bo hynny ar gael ac yn addas, cyflwynir ffigurau cymharol o flynyddoedd blaenorol ym mhob rhan o'r adroddiad. Mae adrannau 3 i 9 yn archwilio pob un o'r sectorau llety fel sy'n dilyn:

- Adran 3: Gwestai
- Adran 4: Tai llety a sefydliadau gwely a brecwast
- Adran 5: Pob llety â gwasanaeth
- Adran 6: Bythynnod a rhandai hunanddarpar
- Adran 7: Cartrefi gwyliau carafán
- Adran 8: Parciau carafanau teithio a gwersylla
- Adran 9: Hostelau a thai bynciau.

Cyflwynir copïau o'r ffurflenni misol a lenwyd gan weithredwyr yn Atodiad 5.

Gwestai

Mae Adran 3 yr adroddiad yn rhoi lefelau cyfartalog misol a blynyddol defnydd ystafelloedd a gwelyau ar gyfer gwestai. Mae manylion am fethodoleg yr arolwg yn Adran 2.

Maint y Sampl


Cymerodd cyfanswm o 133 gwesty ran yn yr arolwg yn 2011 (h.y. dychwelyd o leiaf un ffurflen yn ystod y flwyddyn). I sicrhau y medrir cymharu'r canlyniadau ar draws y misoedd, gwnaed llawer o ymdrech i geisio cadw lefel yr ymateb bob mis ac anogwyd gweithredwyr i roi ymateb llawn dros y flwyddyn. Rhoddodd dros hanner (52%) y gweithredwyr a gyfrannodd at yr arolwg ddata ar gyfer pob mis o'r flwyddyn. Rhoddodd 13% arall ddata am bob mis heblaw un yn y flwyddyn.

Yn ystod y cyfnod hwn, recriwtiwyd 6 gwesty gan awdurdodau lleol i gymryd rhan yn yr arolwg. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod fe wnaeth 13 o sefydliadau un ai adael neu gael eu dileu o'r arolwg. Cafodd sefydliadau eu dileu o'r sampl gan nad oeddent wedi anfon ffurflenni dros gyfnod hir. Mae amrywiaeth fawr o resymau pam fod sefydliadau wedi gadael yr arolwg: newid mewn perchnogaeth/rheolaeth, gweithredwyr yn rhy brysur i lenwi ffurflenni ar adegau brig o'r flwyddyn, afiechyd, ymddeoliad, gweithredwyr a sefydliadau'n rhoi'r gorau i fasnachu fel gwestai. Yn ychwanegol, mae hefyd 'flinder ymatebwyr' lle mae rhai a gymerodd ran yn yr arolwg am beth amser yn credu eu bod wedi "*gwneud eu pwt dros yr arolwg*". Gall hyn fod yn neilltuol o amlwg ar ddechrau blwyddyn arolwg newydd.

Defnydd Cyfartalog Blynnyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Y cyfraddau cyfartalog blynnyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 2011 oedd 42% a 59% yn yr un drefn. Mae'r ffigur dechreuol hwn yn ostyngiad bychan o un pwynt canran ar y gyfradd flynyddol gyfartalog ar gyfer defnydd gwelyau a gofnodwyd yn 2010 (43%) tra parhaodd cyfradd flynyddol defnydd ystafelloedd ar yr un lefel. Bu cyfraddau cyfartalog blynnyddol defnydd gwelyau yn weddol gyson dros y blynnyddoedd, gan barhau yn yr ystod 41% - 45% ers 2001, tra bu cyfradd gyfartalog flynyddol defnyddio ystafelloedd yn yr ystod 54% - 59% dros yr un cyfnod.


Ffigur 3-1 - Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynnyddol (%)



Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynnyddol a gofnodwyd yn y sector gwestai yn 2011 yn Ffigur 3-2 islaw

Ffigur 3-2 - Gwestai - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd – 2011 (%)



Fel mewn blynnyddoedd diweddar, mae'r cyfraddau defnydd a gofnodwyd yn 2011 yn adlewyrchu natur dymhorol y sector gwestai. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn 27% yn ystod Ionawr 2011, cyn gynyddu i frig o 52% yn Awst cyn gostwng i 31% yn Rhagfyr. Yn yr un modd, roedd cyfradd

gyfartalog defnydd ystafelloedd yn uwch yn ystod misoedd yr haf, gyda chyfraddau o 67% i 69% rhwng Mehefin a Medi, a'r cyfraddau isaf yn Ionawr a Rhagfyr (40% a 44% yn yr un drefn).

Tabl 3-1 - Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd - Cyfartaleddau Misol (%)

	Defnydd ystafelloedd										
	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011
Ionawr	33	36	37	35	40	38	40	39	40	39	40
Chwefror	43	47	48	49	48	50	50	50	48	50	53
Mawrth	44	50	50	52	52	51	53	54	51	53	56
Ebrill	49	52	56	54	57	58	58	56	58	60	61
Mai	61	60	62	63	63	65	65	66	62	64	64
Mehefin	63	63	63	65	65	66	67	66	68	69	68
Gorffennaf	66	65	66	67	67	70	67	67	70	70	69
Awst	70	67	69	68	69	73	73	71	70	69	67
Medi	64	65	67	69	69	71	71	69	69	70	68
Hydref	58	58	58	58	58	61	62	61	63	63	61
Tachwedd	53	50	50	52	50	53	55	54	54	54	56
Rhagfyr	43	42	43	45	43	44	47	45	47	42	44
<i>Cyfartaledd</i>	<i>54</i>	<i>55</i>	<i>56</i>	<i>57</i>	<i>57</i>	<i>58</i>	<i>59</i>	<i>58</i>	<i>58</i>	<i>59</i>	<i>59</i>
<i>Blynyddol</i>											

Roedd cyfraddau cyfartalog defnydd ystafelloedd a gofnodwyd yn ystod 2011 yn debyg neu'n uwch nag yn 2010 yn ystod misoedd y gwanwyn a'r gaeaf, yn arbennig ym mis Chwefror (53% a 50% yn yr un drefn) a Mawrth (56% a 53% yn yr un drefn). Fodd bynnag, roedd canlyniadau ar gyfer prif dymor yr haf a misoedd yr hydref ychydig yn is yn 2011 nag yn y flwyddyn flaenorol, gyda gostyngiadau o ddau bwynt canran wedi'u cofnodi yng nghyfraddau cyfartalog defnydd ystafelloedd ar gyfer Awst, Medi a Hydref. Fel y dangosir yn ddiweddarach, mae cyfraddau defnydd busnes yn tueddu i fod yn uwch y tu allan i brif dymor yr haf, sy'n awgrymu y cyfrannodd gwesteion busnes at gyfraddau uwch ar gyfer defnydd ystafelloedd y tu allan i brif dymor yr haf yn 2011 ar gyfer y sector yma.


Yn gyffredinol, misoedd Ionawr i Ebrill ddangosodd y cynnydd mwyaf mewn cyfraddau cyfartalog defnydd ystafelloedd rhwng 2001 a 2011, gyda chynnydd o rhwng saith a deuddeg pwynt canran wedi'u cofnodi ar gyfer y misoedd hyn dros y cyfnod yma.

Cyflwynir tueddiadau mewn cyfraddau misol defnydd gwelyau ers 2001 yn Atodiad 1a.

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae Ffigur 3-3 islaw'n cyflwyno'r cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ym mhob rhanbarth o Gymru. Caiff y canlyniadau ar gyfer y De hefyd eu rhoi ar wahân ar gyfer rhanbarthau'r De Ddwyrain a'r De Orllewin.

Ffigur 3-3 - Gwestai - Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarth – 2011 (%)



Yn 2011, cofnododd rhanbarthau'r Canolbarth a hefyd y De Ddwyrain gyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau o 41%, tra roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau ar gyfer y De Ddwyrain yn 38% ac yn 48% i'r Gogledd. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, y De Ddwyrain gofnododd y gyfradd isaf ar gyfer defnydd gwelyau, sydd ar 38% yn bedwar pwynt canran yn is na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarth yma yn 2010 (42%).

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd mwy o amrywiaeth rhwng y rhanbarthau pan y'u dadansoddir yn ôl eu cyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd. Cofnododd sefydliadau yn y Gogledd a'r De Ddwyrain gyfartaleddau blynyddol tebyg o 61% yr un, tra cofnododd sefydliadau yn y De Orllewin gyfartaledd blynyddol o 51% a'r rhai yn y Canolbarth y cyfartaledd blynyddol isaf o 54%.

Cyflwynir lefelau defnydd cyfartalog ar gyfer ystafelloedd a gwelyau ar gyfer pob rhanbarth ar sail fisol ar gyfer 2011 yn Atodiad 1b ac 1c. Dylid nodi nad yw'r wybodaeth hon bob amser ar gael oherwydd maint bychan y sampl mewn rhai ardaloedd.

Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Rhoddir cyfraddau defnydd ystafelloedd yn rhanbarthau Cymru ers 2000 yn Nhabl 3-2islaw.

Er mai sefydliadau yn y Canolbarth gofnododd un o'r cyfraddau cyfartalog blynyddol isaf yn 2011 o gymharu â'r rhanbarthau eraill, roedd y gyfradd yma bum pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarth yma yn 2010 (49%) a'r uchaf a gofnodwyd ers 2001. Sefydliadau yn y De Orllewin gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol isaf ar gyfer defnydd ystafelloedd yn 2011, sydd ar 51% yn dri phwynt canran yn is na chyfradd 2010 ar gyfer y rhanbarth yma. Parhaodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd y Gogledd yn gyfartal â'r un yn 2010 (61%) ac mae hyn yn parhau'n un o'r cyfraddau uchaf i'w cofnodi ar gyfer y rhanbarth yma dros y deng mlynedd diwethaf. Cofnododd sefydliadau yn y De Ddwyrain ostyngiad o un pwynt canran yn eu cyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd rhwng 2010 a 2011 (62% a 61% yn yr un drefn).

Tabl 3-2 - Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd yn ôl Rhanbarth (%)


	Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd										
	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011
Gogledd	53	52	53	54	54	57	59	57	62	61	61
Canolbarth	44	49	51	52	52	53	53	50	49	49	54
De	58	58	59	60	60	61	61	62	59	60	59
De Ddwyrain	61	60	62	63	60	63	63	66	62	62	61
De Orllewin	53	56	54	55	59	58	58	56	53	54	51
CYFAN CYMRU	54	55	56	57	57	58	59	58	58	59	59

Canran Gwesteion Tramor

Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, yn 2008 diweddarwyd y ffurflenni a ddefnyddiwyd i gasglu data defnydd i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Roedd un o'r newidiadau yn effeithio ar y ffordd y cesglir gwybodaeth am westeion tramor. Mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer yr ymwelwyr newydd yn cyrraedd bob dydd (o'r Deyrnas Unedig a hefyd dramor) a chyflwynwyd canran y gwesteion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr ymwelwyr newydd yn cyrraedd. Ni chesglir yr wybodaeth hon bellach, felly fel canlyniad rydym wedi cyflwyno'r gyfran o westeion tramor fel canran nosweithiau gwely tramor (seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Mae'n bwysig dweud mai ychydig o leoedd degol yw'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol ddulliau o gasglu data tramor. Fel enghraifft, mae canran blynyddol 2007 yn 4.0% yn defnyddio'r hen dull a 4.1% yn defnyddio'r dull newydd.

Oherwydd y newidiadau hyn, ac i sicrhau y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu'n gyson yn seiliedig ar yr un broses fethodolegol, rydym wedi gostwng faint o wybodaeth dueddiadol a gyflwynir ar gyfer gwesteion tramor a chanolbwyntiwn yn yr adroddiad hwn ar ganlyniadau diweddaraf 2008 i 2011.



Ffigur 3-4 - Gwestai - Canran Nosweithiau Gwely Tramor 2011 (%)

Fel y medrid disgwyl, roedd y defnydd tramor uchaf ymhlith y prif dymor twristiaeth. Cofnodwyd cyfartaledd o 5%-7% rhwng Mai a Medi 2011, gyda brig o 7% yng Ngorffennaf 2011. Y canran isaf a gofnodwyd drwy gydol y flwyddyn oedd yn Rhagfyr yn 3%, gyda chyfran gyfartalog flynyddol gwesteion tramor yn 5%.

Tueddiadau mewn Canran Gwesteion Tramor

Fel y dangosir yn Ffigur 3-5 ar y dudalen nesaf, mae'r canran gwesteion tramor a gofnodwyd wedi parhau yn 5% bob blwyddyn rhwng 2008 a 2011.

Mae cyfraddau defnydd misol tramor wedi amrywio dros y tair blynedd ddiwethaf, fodd bynnag, o gofio am y cyfrannau cymharol fach a gofnodwyd ni fu'r rhain yn amrywiadau neilltuol o fawr. Yn Ionawr 2011 y cofnodwyd y cynnydd mwyaf, gyda'r gyfradd yn codi gan ddau bwynt canran i 6% o'r gyfradd a gofnodwyd ar gyfer y mis hwn yn 2010 (4%). Roedd cyfraddau defnydd tramor yn is yn Hydref (4%) a Thachwedd (4%) 2011 o gymharu gyda'r un misoedd yn 2010 (6% a 5% yn yr un drefn).


Ffigur 3-5 - Gwestai - Tueddiadau mewn Canran Gwesteion Tramor (%)**Ffigur 3-6 - Gwestai - Canran Ymwelwyr Tramor yn ôl Rhanbarth 2008 – 2011 (%)**

Parhaodd lefelau defnydd tramor y Gogledd a'r De Orllewin yn gymharol gyson dros flynyddoedd diweddar, gyda chyfradd flynyddol defnydd tramor yn y Gogledd yn 3% ers 2009 a chyfradd De Orllewin yn yr ystod 7%-8% dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae cyfradd flynyddol defnydd tramor ar gyfer y Canolbarth wedi cynyddu ychydig dros y tair blynedd ddiwethaf o 3% i 5%. Rhwng 2008 a 2009, gostyngodd y gyfradd ar gyfer y De Ddwyrain o 10% i 7%, gyda'r gyfradd yn codi eto yn 2011 i 9%.

Canran Gwesteion Tramor

Ar y ffurflen defnydd misol, gofynnir i weithredwyr nodi'r nifer o westeion sy'n aros yn y gwesty bob nos ar gyfer dibenion busnes. Dylid nodi nad yw pawb sy'n cymryd rhan yn rhoi'r wybodaeth yma.

Ffigur 3-7 – Gwestai - Canran Gwesteion Tramor 2011 (%)



Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd y canran o westeion busnes ar ei uchaf ar ddechrau a diwedd y flwyddyn, tueddiad i wrthwyneb yr un ar gyfer cyfraddau defnydd cyffredinol. Mae hwn yn dueddiad sydd wedi'i sefydlu'n dda ar gyfer cyrchfannau yn y Deyrnas Unedig. Roedd y gyfran o westeion busnes a gofnodwyd yn Ionawr 2011 yn 29%, cyfradd a ostyngodd i'w bwynt isaf yn Ebrill ac Awst 2011 (9%) cyn cynyddu i 21% yn Nhachwedd, gyda gostyngiad i 14% yn Rhagfyr. Mae'n debyg y bydd cynnydd mewn defnydd hamdden wedi effeithio ar ffigurau Ebrill a Rhagfyr gan adlewyrchu amseriad y Pasg a'r Briodas Frenhinol yn Ebrill a chyfnod Gwyliau'r Nadolig yn Rhagfyr.

Fel y dangosir yn Nhabl 3-3 ar y dudalen nesaf, roedd y gyfran gyfartalog flynyddol o westeion busnes yn 14%, gostyngiad bach ar gyfradd 2010 o 15% a'r gyfradd isaf a gofnodwyd dros y naw mlynedd ddiwethaf. Dechreuodd 2011 gyda dechrau cryf yn nhermau defnydd busnes gyda chynnydd o saith pwynt canran yn Ionawr o gymharu â'r un mis yn 2010 (22% i 29%). Yn Rhagfyr 2011 y cofnodwyd y gostyngiad mwyaf lle cofnodwyd cyfradd o 14% o gymharu gyda chyfradd o 20% am yr un mis yn 2010. Eto, efallai fod y gyfran o ymweliadau hamdden wedi effeithio ar hyn, gyda thywydd gwael yn Rhagfyr 2010 wedi effeithio ar deithio ond gyda thywydd mwynach yn 2011 wedi golygu ei bod yn fwy tebygol y cymerwyd triapiau hamdden, sy'n aml yn llai penodol na threfniadau busnes.

Tabl 3-3 Tueddiadau yng nghanrannau Gwesteion Busnes

	% gwesteion busnes								
	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011
Ionawr	36	41	45	41	33	38	31	22	29
Chwefror	33	38	37	30	25	26	26	19	21
Mawrth	30	39	30	28	21	19	24	20	19
Ebrill	21	25	26	15	15	24	17	13	9
Mai	18	24	19	17	18	16	16	15	15
Mehefin	19	20	21	17	16	19	20	14	12
Gorffennaf	17	22	19	17	14	18	17	13	11
Awst	13	15	14	14	10	11	11	9	9
Medi	20	21	22	15	12	18	14	12	10
Hydref	28	25	25	21	15	21	18	15	13
Tachwedd	38	38	34	24	23	28	19	24	21
Rhagfyr	26	24	28	18	24	21	17	20	14
Cyfartaledd Blynnyddol	23	27	25	20	18	20	18	15	14


Dadansoddiad Manwl o'r Prif Ganlyniadau

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych yn fanylach ar wahanol nodweddion y gwestai a'u dylanwad, os oedd dylanwad, ar lefelau defnydd gwelyau ac ystafelloedd.

Defnydd yn ôl Maint Gwestai

Cyflwynir y ffigurau defnydd cyfartalog blynnyddol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint gwestai ar gyfer 2011 yn Ffigur 3-8 islaw. Oherwydd maint bach y sampl, nid oes dadansoddiad ar gyfer gwestai gyda 1-3 ystafell. Rhoddir manylion lefelau defnydd misol gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau maint a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad hwn.

Ffigur 3-8 - Defnydd Blynnyddol yn ôl Maint Gwesty - 2011 (%)



Mewn blynnyddoedd blaenorol, cofnodwyd cyd-berthynas gadarnhaol yn nhermau maint a chyfraddau defnydd gwelyau, tueddiad oedd yn llai amlwg yn 2011 gyda chyfraddau defnydd yn yr ystod 41% - 44% wedi'u cofnodi ar draws y gwahanol gategorïau maint. Fodd bynnag, mae ffigur 3-8 uchod yn dangos

cyd-berthynas cyffredinol rhwng maint gwesty a chyfraddau defnydd ystafelloedd. Cofnododd gwestai gyda rhwng 51 a 100 ystafell gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd gwelyau o 65% a rhai gyda dros 100 ystafell gyfradd o 63% o gymharu â 52% ymysg rhai gyda 4 i 10 ystafell.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae nifer o ffactorau a fedrai fod wedi cyfrannu at y gyd-berthynas gadarnhaol gyffredinol hon. Mae gwestai mwy yn tueddu i fod ar agor drwy'r flwyddyn ac yn fwy tebygol o fynd ati i farchnata eu sefydliadau. Hefyd, mae llawer ohonynt wedi lleoli mewn dinasoedd a threfi mawr, gan eu gwneud yn fwy tebygol o gael gwesteion busnes yn defnyddio ystafelloedd sengl.

Tabl 3-4 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Cyfartalog Defnydd Ystafelloedd yn ôl Maint Gwesty (%)

	Defnydd Cyfartalog Blynnyddol Ystafelloedd										
	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011
4-10 ystafell	43	43	44	48	47	47	46	40	40	45	52
11-25 ystafell	49	51	50	50	52	53	54	53	55	53	54
26-50 ystafell	55	53	54	56	56	58	61	62	58	57	56
51-100 ystafell	60	60	63	66	60	62	64	66	63	66	65
101+ ystafell	67	68	68	68	69	71	68	67	69	68	63


Er mai sefydliadau mwy gofnododd y gyfradd gyfartalog uchaf ar gyfer defnydd gwelyau yn 2011, roedd y gyfradd ar gyfer rhai gyda 51 i 100 ystafell ychydig yn is nag yn 2010 (65% a 66% yn yr un drefn), tra gostyngodd y gyfradd ar gyfer rhai gyda dros 100 ystafell gan bum pwynt canran dros yr un cyfnod (68% i 63%). Sefydliadau gyda rhwng 4 a 10 ystafell gofnododd y cynnydd mwyaf yn eu defnydd cyfartalog o ystafelloedd, gyda chyfradd 2011 o 52% saith pwynt canran yn uwch na chyfradd 2010 o 45% a'r uchaf a gofnodwyd ar gyfer y sefydliadau hyn ers 2001.

Defnydd yn ôl Tariff

Mae'r ffigurau tariff a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godwyd fesul person ar gyfer ystafell ddwbl neu ystafell gefell, yn cynnwys brecwast. Rhoddir manylion lefelau defnydd gwelyau misol pob un o'r categorïau tariff a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad.

Mae Ffigur 3-9 islaw yn cyflwyno ffigurau blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2011. Nid oes dadansoddiad ar gyfer gwestai gyda thariff o lai na £20 gan mai dim ond un ffurflen a anfonwyd gan sefydliad yn codi'r gyfradd yma yn 2011.


Ffigur 3-9 - Defnydd Blynyddol yn ôl Tariff Gwesty – 2011 (%)



Yn gyffredinol, cofnodwyd perthynas gadarnhaol rhwng y tariff a godwyd a lefelau defnydd ar gyfer gwestai unwaith eto yn 2011. Sefydliadau'n codi £50-£59.99 gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf (47%), fodd bynnag, ar 42% roedd y gyfradd ar gyfer gwestai'n codi £60 neu fwy ddeg pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd gan y rhai'n codi £30-£39.99. Pan y'u dadansoddwyd yn ôl defnydd ystafell, roedd cyd-berthynas glir yn amlwg, gyda chyfradd o 60% wedi'i chofnodi gan westai'n codi £50-£59.99 a rhai'n codi £60 neu fwy o gymharu â 46% ar gyfer sefydliadau'n codi £30-£39.99. Mae'n debygol fod gwestai yn y bandiau tariff uwch wedi denu cyfran uwch o westeion busnes yn defnyddio ystafelloedd defnydd sengl.


Ar gyfer y rhan fwyaf o fandiau tariff, roedd y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd a gofnodwyd yn debyg i'r hyn a gofnodwyd yn 2010. Y canran mwyaf oedd pedwar pwynt canran ar gyfer rhai'n codi £40-£49.99 a ddaeth â chyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd y sefydliadau hyn i 59%, yr uchaf a gofnodwyd ers 2003.

Mae Ffigur 3-10 drosodd yn dangos cyfraddau blynyddol cyfartalog defnydd ystafelloedd yn ôl tariff am y cyfnod 2003-2011.

Ffigur 3-10 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Gwesty (%)**Defnydd yn ôl Lleoliad**

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd yn ôl lleoliad y gwesty - dinas/tref fawr, tref fach, glan môr neu ardal wledig/pentref. Rhoddir manylion lefelau defnydd misol gwelyau ac ystafelloedd yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad hwn.

Dangosir y ffigurau blynyddol cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwelyau yn ôl lleoliad yn Ffigur 3-12 islaw.

Ffigur 3-11- Defnydd Blynyddol yn ôl Lleoliad Gwesty - 2011 (%)

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd yn 2011 (62%). Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, fodd bynnag, sefydliadau mewn ardaloedd glan môr gofnododd y gyfradd gyfartalog uchaf ar gyfer defnydd gwelyau o 45%. Cofnodwyd y gyfradd gyfartalog isaf ar gyfer defnydd gwelyau ar gyfer gwestai mewn trefi bach (38%), a chofnodwyd y gyfradd gyfartalog flynyddol isaf ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer gwestai mewn lleoliadau gwledig/pentref (55%). Yn 2011, cofnodwyd y gwahaniaethau mwyaf rhwng cyfraddau cyfartalog blynyddol defnyddio gwelyau ac ystafelloedd ar

gyfer sefydliadau mewn trefi bach, gwahaniaeth o 22 pwynt canran a dinasoedd/trefi mawr (21 pwynt canran).

Tabl 3-5 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Lleoliad Gwesty (%)


	Defnydd Blynyddol Ystafelloedd										
	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011
Dinas/tref fawr	66	69	72	69	67	71	71	71	69	66	62
Tref fach	54	52	53	54	56	57	57	53	55	61	59
Glan môr	56	56	57	56	56	57	62	60	58	59	60
Gwledig/pentref	48	49	52	53	53	53	52	53	52	53	55

Rhwng 2010 a 2011, cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau mewn lleoliadau gwledig/pentref gan ddau bwynt canran i 55% (o 53%), tra bod y cyfraddau ar gyfer y rhai mewn trefi bach ac ardaloedd glan môr yn debyg i 2011 ar gyfer y rhai a gofnodwyd yn 2010, gyda gostyngiad o un pwynt canran a chynnydd o un pwynt canran yn yr un drefn dros y cyfnod. Yn dilyn cyfnod o sefydlogrwydd rhwng 2006 a 2008, gostyngodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer gwestai mewn dinasoedd/trefi mawr flwyddyn-ar-flwyddyn ers 2008, gyda'r gostyngiad o bedwar pwynt canran yn 2011 yn golygu mai'r gyfradd hon (62%) yw'r isaf a gofnodwyd ers 2001.

Defnydd yn ôl Graddiad

Ers 1999, cafodd cyfraddau defnydd gwestai hefyd eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru (gynt Bwrdd Croeso Cymru). Ar y sail yma, nid oes unrhyw ffigurau cymharol ar gael cyn 1999. Oherwydd meintiau bach y sampl, nid oes dadansoddiad ar gyfer sefydliadau gyda graddiad 1 seren.


Ffigur 3-12 - Defnydd Blynyddol yn ôl Graddiad Gwesty – 2011 (%)



Gwestai heb eu graddio o fewn cynllun graddiad Croeso Cymru gofnododd y cyfraddau cyfartalog blynyddol isaf ar gyfer defnydd ystafelloedd (54%), ac roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn y sefydliadau hyn yn gyfartal i'r hyn a gofnodwyd gan sefydliadau 3 seren (40% yr un). O fewn cynllun graddiad Croeso Cymru, gwestai gyda'r graddiad seren uchaf gofnododd y cyfartaleddau blynyddol uchaf, gyda chyfraddau o 57% a 73% ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn yr un drefn.

Fel y dangosir yn Ffigur 3-13 islaw , roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd gwestai gyda graddiad 3 seren (57%) yn debyg i'r hyn a gofnodwyd yn 2010 (58%). Bu mwy o amrywiaeth yn y cyfraddau eraill, gyda chynnydd o bump a chwe phwynt canran yn yr un drefn ar gyfer rhai gyda graddiad 2 a 5 seren, a chofnododd y rhai gyda 4 seren ostyngiad o 64% yn 2010 i 60% yn 2011. Cynyddodd cyfradd defnydd gyfartalog defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau heb eu graddio o 52% yn 2010 i 54% yn 2011. Cyflwynir ffigurau cyfartalog misol a blynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer graddio yn Atodiad 1b ac 1c.

Ffigur 3-13 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd ystafelloedd yn ôl Graddiad Gwesty (%)



Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast

Mae Adran 4 yr adroddiad yn cyflwyno lefelau cyfartalog misol a blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast. Gweler Adran 2 i gael manylion methodoleg yr arolwg.

Maint y Sampl

Cymerodd 152 o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast ran yn yr arolwg yn 2011 h.y. rhoi gwybodaeth defnydd am o leiaf un mis yn ystod y flwyddyn. I sicrhau y medrir cymharu'r canlyniadau ar draws y misoedd, rhoddwyd cryn ymdrech i geisio cynnal lefel yr ymateb bob mis ac anogwyd gweithredwyr i roi ymatebion ar gyfer pob mis o'r flwyddyn.


Rhoddodd 45% o'r gweithredwyr (68) a gyfrannodd i'r arolwg ddata ar gyfer pob mis o'r flwyddyn. Rhoddodd 7% arall (10) ddata am bob mis heblaw un.

Yn ystod 2011, recriwtiwyd 15 o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast i gymryd rhan yn yr arolwg. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod gadawodd 13 o sefydliadau'r arolwg neu gael eu dileu ohono. Cafodd sefydliadau eu dileu o'r arolwg gan nad oeddent wedi dychwelyd ffurflenni am gyfnod hir ac roedd y rhesymau am adael yr arolwg yn cynnwys afiechyd, henaint, prysurdeb, wedi ymddeol a sefydliadau'n cael eu gwerthu neu heb fod yn gweithredu mwyach.

Defnydd Cyfartalog Blynnyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Fel y dangosir yn Ffigur 4-1 islaw, mae cyfraddau defnydd cyffredinol ar gyfer Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast yn dal heb adfer o effeithiau'r dirwasgiad economaidd. Gostyngodd cyfraddau cyfartalog blynnyddol defnydd gwelyau gan un pwynt canran yn 2011 i 28% a gostyngodd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd gan dri phwynt canran i 34%. Dyma'r cyfraddau defnydd isaf a gofnodwyd dros y deng mlynedd ddiwethaf.


Ffigur 4-1 - Tai Llety/ Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaledd Blynnyddol (%)



Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â chyfartaleddau blynnyddol a gofnodwyd yn y sector tai llety a gwely a brecwast yn 2011 yn Ffigur 4-2 islaw.

Ffigur 4-2 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd - 2011 (%)



Fel mewn blynnyddoedd blaenorol, mae natur dymhorol y sector yn amlwg gyda'r cyfraddau cyfartalog uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn ystod y prif dymor twristiaeth (Mai i Fedi). Amrywiodd lefelau defnydd gwelyau o 10% yn Ionawr i frig o 53% yn Awst cyn

gostwng i 10% yn Rhagfyr. Roedd lefelau defnydd ystafelloedd yn dilyn patrwm tebyg gan ddringo o 13% yn Ionawr i 59% yn Awst cyn gostwng i 13% yn Rhagfyr 2011.

Fel y dangosir yn Nhabl 4-1 islaw, roedd cyfraddau cyfartalog defnydd ystafelloedd yn is yn 2011 nag ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd yn 2010. Cofnodwyd y gostyngiadau mwyaf y tu allan i brif fisoedd yr haf, gyda gostyngiad o ddeg pwynt canran wedi'i gofnodi rhwng Hydref 2010 a'r un mis yn 2011 (39% a 29% yn yr un drefn), tra cofnodwyd gostyngiad o chwe phwynt canran yn Nhachwedd (o 25% i 19%). Cofnodwyd cynnydd bychan yn Ebrill 2011 (38% i 39%), gyda chyfnod Gwyliau'r Pasg a Gŵyl Banc ychwanegol ar gyfer y Briodas Frenhinol yn Ebrill 2011. Mae cyfradd Awst 2011 o 59% yn gynnydd o ddau bwynt canran ar ffigur 2010 o 57% ac yn dychwelyd i'r gyfradd a gofnodwyd yn 2008 a 2009 ar gyfer y mis hwn.

Cyflwynir tueddiadau mewn cyfraddau misol defnydd gwelyau yn Atodiad 2a.


Tabl 4-1 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd - Cyfartaledd Misol (%).

	Defnydd ystafelloedd										
	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011
Ionawr	14	22	21	22	26	17	19	18	17	15	13
Chwefror	20	26	27	27	29	27	27	26	25	24	19
Mawrth	14	34	30	29	36	28	29	30	27	27	24
Ebrill	24	33	45	44	40	42	40	34	38	38	39
Mai	34	45	52	49	49	52	49	46	45	42	41
Mehefin	38	57	50	57	56	57	50	45	48	50	49
Gorffennaf	51	60	61	64	63	65	54	54	54	53	50
Awst	60	70	72	73	72	71	66	59	59	57	59
Medi	42	54	54	56	59	56	51	47	51	50	45
Hydref	32	41	39	43	41	43	39	38	39	39	29
Tachwedd	22	29	30	28	24	28	27	25	25	25	19
Rhagfyr	17	24	24	25	20	27	19	21	21	18	13
<i>Cyfartaledd Blynnyddol</i>	31	42	43	44	44	43	40	37	38	37	34

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae Ffigur 4-3 islaw yn cyflwyno cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru yn 2011. Cyflwynir y cyfraddau defnydd misol ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely ar gyfer pob ardal yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad hwn.

Ffigur 4-3 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarth – 2011 (%)



Roedd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd uchaf ar gyfer rhanbarth y De Orllewin yn 2011 (34% a 37% yn yr un drefn). Cofnododd sefydliadau yn y Gogledd gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd gwelyau o 30% tra cofnodwyd cyfraddau is gan y rhai yn y De Ddwyrain (21%) a'r Canolbarth (26%). Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd sefydliadau yn y De Ddwyrain yn 25%, cyfran is nag a gofnodwyd ar gyfer pob un o'r tri rhanbarth arall.

Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Cyflwynir lefelau defnydd ystafelloedd ym mhob rhanbarth ers 2000 yn Nhabl 4-2 islaw.

Tabl 4-2 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd yn ôl Rhanbarth (%)

	Defnydd ystafelloedd										
	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011
Gogledd	29	38	40	42	44	43	41	35	39	39	35
Canolbarth	24	33	33	33	34	33	33	29	33	32	34
De	37	50	49	50	49	48	44	43	40	38	32
De Ddwyrain	37	52	52	52	51	49	46	43	40	38	25
De Orllewin	36	48	46	48	47	48	43	43	39	39	37
Cyfanswm Cymru	31	42	43	44	44	43	40	37	38	37	34

Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd sefydliadau yn y Canolbarth ddau bwynt canran yn uwch yn 2011 na'r gyfradd a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol (34% a 32% yn yr un drefn). Gostyngodd cyfradd y Gogledd gan bedwar pwynt canran rhwng 2010 a 2011 i 35%, a chofnodwyd


gostyngiad o ddau bwynt canran ar gyfer sefydliadau yn y De Orllewin. Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd y De Ddwyrain 13 pwynt canran yn is nag yn 2010 a dyma'r gyfradd isaf a gofnodwyd ers 2001. Mae'r rhanbarth yma'n draddodiadol wedi denu cyfran uwch o ymwelwyr busnes, a all olygu bod y teithwyr hyn yn defnyddio'r math yma o lety yn llai aml. Dylid cadw mewn cof fod maint sampl rhanbarth y De Ddwyrain ar gyfer defnydd busnes yn isel ac na waeth pawb o'r rhai sy'n cyflenwi data defnydd busnes eu cyflwyno am bob mis, felly dylid bod yn ofalus wrth drin canlyniadau.

Canran Gwesteion Tramor

Fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol (Adran 3), bu newid bach yn y ffordd y cesglir data ar westeion tramor. Yn 2008, diweddarwyd y ffurflenni i gasglu data defnydd i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Roedd un o'r newidiadau yn effeithio ar y ffordd y cesglir gwybodaeth ar westeion tramor. Mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y gwesteion newydd yn cyrraedd bob diwrnod (yn y DU a thramor) a chyflwynwyd y canran o westeion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y gwesteion newydd yn cyrraedd. Ni chaiff yr wybodaeth hon ei chasglu yn awr felly fel canlyniad cyflwynir y gyfran o arosiadau tramor fel canran o nosweithiau gwely tramor (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn ac i sicrhau y cymherir ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd yn seiliedig ar yr un broses fethodolegol, gostyngwyd faint o wybodaeth dueddiadol a gyflwynir ar gyfer gwesteion tramor ac mae'r ffocws yn yr adroddiad yma ar ganlyniadau diweddaraf 2008 i 2011.

Ffigur 4-4 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Canran o Nosweithiau Gwely Tramor - 2011 (%)




Fel mewn nifer o flynyddoedd blaenorol, roedd y canran o ymwelwyr tramor uchaf yn ystod cyfnod Mai i Fedi yn 2011 gyda chyfraddau o 10% i 16%. Cofnodwyd cyfradd o 10% yn Ebrill 2011 hefyd, ac efallai i'r Briodas Frenhinol ddylanwadu ar hynny. Yn 2010, cofnodwyd cyfradd o 16% ar gyfer Rhagfyr. Fel trafodwyd yn gynharach, roedd cyfraddau defnydd cyffredinol Rhagfyr yn is yn Rhagfyr 2010 nag yn 2009, gan ddangos i sefydliadau yn y sector yma dderbyn cyfran is o ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig yn ystod y mis yma, mae'n debyg oherwydd tywydd difrifol yn y gaeaf. Yn 2011, roedd y gyfradd defnydd tramor yn 3%, sy'n dangos y daeth cyfran uwch o'r rhai'n aros mewn Tai Llety a sefydliadau Gwely a Brecwast yn ystod y mis hwn yn 2010 o'r Deyrnas Unedig.

Tueddiadau mewn Canran Gwesteion Tramor


Ar draws y pedair blynedd a ddangosir yn Ffigur 4-5, nid yw'r gyfran o ymwelwyr tramor wedi amrywio'n sylweddol, gan barhau yn yr ystod 11% - 12%. Fodd bynnag, bu rhai amrywiadau sylweddol yn ôl mis. Cofnodwyd y gwahaniaethau mwyaf yn Ionawr a Rhagfyr 2001, pan ostyngodd y canran o ymwelwyr tramor gan 5 a 13 pwynt canran yn yr un drefn.

Ffigur 4-5 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Canran Nosweithiau Gwely Tramor




Mewn blynnyddoedd blaenorol y De Ddwyrain (sy'n cynnwys Caerdydd y brifddinas) gofnododd y gyfran uchaf o ddefnyddwyr tramor. Fodd bynnag, yn 2011, roedd y canran o westeion tramor yn y rhanbarth yn gyfartal i'r hyn a gofnodwyd yn y Gogledd a'r Canolbarth, yn ogystal â bod tua wyth pwynt canran yn is nag yn 2010 (gweler Ffigur 4-6 trosodd). Mae hyn oherwydd gostyngiad yn y sampl yn darparu data tramor (21 yn 2010, 13 yn 2011) a hefyd ostyngiad sylweddol yn y gyfradd defnydd tramor a gofnodwyd gan 6 o'r 13 a ddychwelodd y data yn y rhanbarth hwn yn 2011.

Parhaodd y canran o westeion tramor yn gyfartal â 2010 ar gyfer sefydliadau yn y Canolbarth, tra cynyddodd cyfradd y Gogledd gan ddau bwynt canran i 10% a gostyngodd cyfradd y De Orllewin ychydig o 13% yn 2010 i 12% yn 2011.

Ffigur 4-6 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Canran Ymwelwyr Tramor yn ôl Rhanbarth 2008 – 2011 (%)

Canran Gwesteion Busnes


Fel gyda gwestai, ers mis Chwefror 2011, gofynnwyd i weithredwyr tai llety a sefydliadau gwely a brecwast gofnodi nifer y gwesteion yn aros am ddibenion busnes. Dylid nodi nad yw pawb sy'n cymryd rhan yn rhoi'r wybodaeth yma i ni.

Ffigur 4-7 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Canran Gwesteion Busnes – 2010 & 2011 (%)

15% oedd cyfran flynyddol gyfartalog gwesteion busnes mewn sefydliadau gwely a brecwast a thai llety yn 2011, gostyngiad o bum pwynt canran ar gyfradd 2010 o 20% ac is na chyfradd 2009 o 21%. Cofnodwyd y canrannau uchaf o westeion busnes yn Ionawr a Thachwedd 2011 (43% a 42% yn yr un drefn). Cofnodwyd yr amrywiadau mwyaf rhwng 2010 a 2011 yn nhermau defnydd busnes yn Ionawr (gostyngiad o 18 pwynt canran), Chwefror (gostyngiad o 10 pwynt canran) ac Ebrill (gostyngiad o 14 pwynt canran). Roedd cyfnod Gwyliau'r Pasg a'r Briodas Frenhinol yn Ebrill 2011 ac mae'n debygol i hynny ddylanwadu ar y gyfran o westeion hamdden yn ystod y mis hwn. Dylid nodi fod y sampl yn darparu data defnydd busnes ar draws Cymru yn is ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd yn 2001 nag a roddodd yr wybodaeth hon yn 2010.

Fel y nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, cofnodwyd cyfran sylweddol uwch o westeion busnes yn y De Ddwyrain nag mewn rhanbarthau eraill (33% o gymharu â 7% yn y De Orllewin). Eto, dylid nodi nad yw pawb sy'n cymryd rhan yn rhoi'r wybodaeth hon, felly mae canlyniadau yn amrywio mwy na'r cyfraddau defnydd cyffredinol.

Ffigur 4-8 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Canran Blynyddol Cyfartalog Gwesteion Busnes yn ôl Rhanbarth - 2011 (%)



Y De Orllewin oedd yn dangos yr amrywiad mwyaf o gymharu gyda 2011, gyda gostyngiad o 15 pwynt canran yng nghyfradd gyfartalog defnydd busnes ar gyfer y rhanbarth hwn yn 2011 (7% o gymharu gyda 22% yn 2010). Cofnododd y De Ddwyrain ostyngiad o chwe phwynt canran rhwng 2010 a 2011, tra cofnodwyd gostyngiad o ddau bwynt canran yn y Gogledd dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, cofnododd y Canolbarth gynnydd o bedwar pwynt canran rhwng 2010 a 2011 (15% i 19%). Eto, dylid nodi nad yw pawb sy'n cymryd rhan yn rhoi'r wybodaeth yma, felly mae canlyniadau yn amrywio mwy na chyfraddau defnydd cyffredinol. Yn ychwanegol, roedd y sampl yn rhoi'r data yn is yn rhanbarth y De Orllewin ar gyfer mwyafrif y misoedd yn 2011 nag a roddodd yr wybodaeth yn y rhanbarth yma yn 2010.

Dadansoddiad Manwl o'r Prif Ganlyniadau


Mae'r adran yma o'r adroddiad yn edrych yn fwy manwl ar wahanol fathau o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast a gyfrannodd at yr arolwg ac effaith, os oedd, y ffactorau hynny ar lefelau defnydd ystafelloedd a gwelyau.

Defnydd yn ôl maint Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast

Oherwydd maint bychan y sampl yn llawer o'r categorïau maint mwy, dim ond ar gyfer dau categori o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast y cyflwynir cyfraddau defnydd: 1-3 ystafell a 4-10 ystafell.

Cyflwynir y ffigurau defnydd cyfartalog misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn Atodiad 2b a 2c.

Ffigur 4-9 - Defnydd Cyfartalog yn ôl maint Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - 2011 (%)



Fel y nodwyd yn flaenorol ar gyfer y sector yma ac ar gyfer gwestai, byddai'n ymddangos fod perthynas gadarnhaol rhwng cyfraddau defnydd a maint sefydliad. Cofnododd sefydliadau gyda 4-10 ystafell gyfraddau cyfartalog blyneddol o 31% ar gyfer defnydd gwelyau a 37% ar gyfer defnydd ystafelloedd o gymharu â 23% a 27% yn yr un drefn ymysg rhai gyda 1-3 ystafell. Mae'n debygol fod y defnydd uwch ymysg y sefydliadau hyn yn ganlyniad nifer o ffactorau yn cynnwys y ffaith fod sefydliadau mwy yn debycach o fod ar agor drwy'r flwyddyn a hefyd yn fwy tebygol o ddenu gwesteion busnes.

Tabl 4-3 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynnyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Maint Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)


	Cyfradd Flynyddol Defnydd Ystafelloedd										
	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011
1-3 ystafell	26	33	34	36	36	34	33	31	30	32	27
4-10 ystafell	36	45	45	48	48	47	47	40	43	40	37

Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn is ar gyfer sefydliadau gyda 1-3 ystafell a hefyd sefydliadau gyda 4-10 ystafell yn 2011 na'r cyfraddau cymharol yn 2010. Cofnodwyd y gostyngiad mwyaf ar gyfer rhai gyda 1-3 ystafell, gyda chyfradd o 27% yn 2011 o gymharu gyda 32% yn 2010. Roedd y cyfraddau ar gyfer y ddau fand maint yn debyg i'r rhai a gofnodwyd yn 2001.


Defnydd yn ôl Tariff

Fel yn yr arolwg gwestai, mae'r ffigurau tariff a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godir fesul person am ystafell ddwbl neu ystafell gefell, yn cynnwys brecwast. Rhoddir manylion y lefelau defnydd misol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau tariff a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad. Oherwydd maint y sampl, dylid nodi mai dim ond ar gyfer y sefydliadau hynny gyda thariff o fwy na £20 y rhoddir canlyniadau.

Mae Ffigur 4-10 islaw yn cyflwyno ffigurau defnydd blynnyddol gwelyau ac ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2011. Er yr ymddangosai mewn blynnyddoedd blaenorol fod cyd-berthynas gadarnhaol rhwng tariff a lefel defnydd, ymddangosai fod gan dariff lai o ddylanwad ar ddefnydd yn 2011. Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau ar gyfer sefydliadau'n codi £30 neu fwy yn yr ystod 29-30% yn 2011, tra bod cyfradd cyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd rhwng 34% a 35%.

Ffigur 4-10 - Defnydd Blynnyddol yn ôl Tariff Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – 2011 (%)

Mae Ffigur 4-11 ar y dudalen nesaf yn cyflwyno cyfraddau cyfartalog blynnyddol defnydd gwelyau yn ôl tariff rhwng 2004 a 2011. Dylid nodi, fel canlyniad i newidiadau yn y bandiau tariff a ddefnyddiwyd mewn dadansoddi, nid yw ffigurau ar gyfer cymharu cyn hyn ar gael ac oherwydd meintiau sampl, nid yw canlyniadau rhai categorïau ar gael ar gyfer blynnyddoedd blaenorol.

Ffigur 4-11 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynnyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)

Rhwng 2010 a 2011, gostyngodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd sefydliadau'n codi £60 neu fwy gan ugain pwynt canran i 34%. Dylid nodi fod maint sampl y sefydliadau hyn yn fach, felly, mae angen gofal wrth drin amrywiadau rhwng y ddwy flynedd. Roedd gostyngiadau eraill yn llai amlwg gyda gostyngiad o bedwar pwynt canran rhwng 2010 a 2011 yng nghyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd rhai'n codi £20-£29.99 (i 24%), tra gostyngodd y gyfradd ar gyfer rhai'n codi £30-£39.99 o 37% i 35% ac ar gyfer rhai'n codi £40-£49.99 o 38% i 35% dros yr un cyfnod.


Roedd maint y sampl ar gyfer sefydliadau'n codi dan £20 yn rhy fach i'w gynnwys.

Defnydd yn ôl Lleoliad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd yn ôl lleoliad tai llety a sefydliadau gwely a brecwast – mewn dinas/tref fawr, tref fach, glan môr neu mewn lleoliadau gwledig/pentref. Cyflwynir y lefelau defnydd misol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob math o leoliad yn Atodiad 2b a 2c.

Fel yn 2010, roedd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd a gwelyau uchaf mewn ardaloedd glan môr yn 2011 (35% a 42% yn yr un drefn) ond fe'u dilynwyd gan drefi bach (33% a 44% yn yr un drefn) yn 2011. Ni ddangoswyd data ar gyfer dinasoedd/trefi mawr oherwydd maint bach y sampl.

Ffigur 4-12 - Defnydd Blynyddol yn ôl Lleoliad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - 2011 (%)



Tabl 4-4 - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl lleoliad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)

	Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd										
	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011
Tref fach	28	43	39	38	42	41	40	38	40	37	44
Glan môr	39	37	44	46	47	47	46	44	42	46	42
Gwledig/Pentref	27	41	40	41	41	40	36	33	33	34	30


Cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau mewn trefi bach gan saith pwynt canran yn 2011 i 44%, y gyfradd uchaf a gofnodwyd ar gyfer y sefydliadau hyn dros y deng mlynedd diwethaf. Cofnododd y rhai mewn ardaloedd glan môr ostyngiad o bedwar pwynt canran rhwng 2010 a 2011 (46% i 42%), fel y gwnaeth y rhai mewn ardaloedd gwledig/pentref (34% i 30%)

Defnydd yn ôl Graddiad

Fel gyda gwestai, dadansoddwyd cyfraddau defnydd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru (gynt Bwrdd Croeso Cymru), a gyflwynwyd yn 1999.

Mae Ffigur 4-13 islaw'n cyflwyno ffigurau blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl graddiad ar gyfer 2011. Oherwydd maint bach samplau sefydliadau gyda 1 a 2 seren nid oes dadansoddiad ar gyfer y categorïau graddiad hyn.


Ffigur 4-13 - Defnydd yn ôl Graddiad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - 2011 (%)



Fel y gwelir yn y siart uchod, roedd yn gyffredinol g yd-berthynas gadarnhaol rhwng lefelau defnydd a graddiad, gyda sefydliadau heb eu graddio'n cofnodi'r cyfraddau cyfartalog isaf ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwelyau o 18% a 24% pwynt canran yn yr un drefn. Cofnododd sefydliadau gyda graddiad 5 seren gyfraddau cyfartalog blynyddol is na rhai gyda 4 seren (30% a 33% yn yr un drefn), gyda dim ond gwahaniaeth bach iawn yng nghyfraddau cyfartalog defnydd ystafelloedd ar gyfer y categorïau graddiad hyn yn 2011 (35% a 36% yn yr un drefn).

Mae Ffigur 4-14 islaw'n dangos y tueddiadau mewn cyfraddau blynyddol defnydd ystafelloedd yn ôl graddiad. Dylid nodi na chyflwynwyd data ar gyfer sefydliadau 1 a 2 seren ac, am rai blynyddoedd blaenorol, ar gyfer sefydliadau 5 seren oherwydd maint cyfyngedig y sampl.

Ffigur 4-14 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Graddiad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)



Rhwng 2010 a 2011, cofnodwyd y gostyngiad mwyaf ar gyfer sefydliadau gyda graddiad 5 seren gyda chyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd y sefydliadau hyn yn gostwng i 35% yn 2011, y gyfradd isaf a gofnodwyd ers 2008. Cofnododd sefydliadau pedair seren ostyngiad o dri phwynt canran dros y cyfnod hwn, tra gostyngodd y gyfradd ar gyfer sefydliadau 3 seren o 36% i 31%. Sefydliadau heb raddio gofnododd y gostyngiad lleiaf o ddau bwynt canran yn eu cyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd rhwng 2010 a 2011.

Cyflwynir ffigurau cyfartalog misol a blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer y gwahanol raddau yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad.


Pob Llety â Gwasanaeth

Mae Adran 5 yr adroddiad yn cyflwyno lefelau cyfartalog misol a blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer yr holl wahanol fathau o lety â gwasanaeth h.y. gwestai, tai llety a sefydliadau gwely a brecwast.

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Mae defnydd cyfartalog blynyddol ystafelloedd ar gyfer pob llety â gwasanaeth wedi parhau'n gyson ar 38% am y pedair blynedd ddiwethaf. Yn yr un modd, bu cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn 32% am y pedair blynedd diwethaf.


Ffigur 5-1 - Llety â Gwasanaeth - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynyddol (%)



Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir cyfraddau misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd ar gyfer pob llety â gwasanaeth yn Ffigur 5-2 islaw.

Ffigur 5-2 - Pob Llety â Gwasanaeth - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd - 2011 (%)



Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae natur dymhorol eto'n amlwg yn y cyfraddau defnydd misol ar gyfer pob llety â gwasanaeth. Rhwng Mai a Medi, roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn yr ystod 42% - 53%, tra bod cyfradd cyfartalog defnydd ystafelloedd yn yr ystod 58%-65% yn yr un cyfnod. Mae effaith cyfnod gwyliau'r Pasg a'r Briodas Frenhinol yn glir, gyda chynnydd o wyth pwynt canran yng nghyfradd gyfartalog defnydd gwelyau ac ystafelloedd rhwng Mawrth ac Ebrill 2011.


Canran Gwesteion Tramor

Gofynnir i weithredwyr nodi nifer y gwesteion sy'n aros yn eu sefydliad bob nos yn ôl dinasyddiaeth - DU a thramor - ar eu ffurflen defnydd misol. Dylid nodi nad yw pob ymatebydd yn rhoi'r wybodaeth hon.

O ddechrau 2008, ni chasglwyd gwybodaeth cyraeddiadau ar gyfer gwesteion DU a Thramor, ac mae hynny wedi effeithio ar y ffordd y cafodd data ar gyfer gwesteion tramor ei gyfrif. Yn flaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y cyraeddiadau newydd ar gyfer pob diwrnod (DU a hefyd dramor) a chyflwynwyd y canran gwesteion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cyraeddiadau. Ni chaiff yr wybodaeth hon ei chasglu bellach, felly fel canlyniad rydym wedi cyflwyno'r gyfran o arosiadau tramor fel canran o nosweithiau gwely tramor (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn, ac i sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu yn seiliedig ar yr un broses fethodolegol, rydym wedi gostwng faint o wybodaeth dueddiadol a gyflwynir ar gyfer gwesteion tramor a chanolbwyntiwn yn yr adroddiad hwn ar ganlyniadau 2008 i 2011.

Ffigur 5-3 – Pob Llety â Gwasanaeth - Canran Nosweithiau Gwely Tramor – 2008 - 2011 (%)



Mae canran gyfartalog flynyddol gwesteion tramor wedi parhau ar 7% am y pedair blynedd ddiwethaf. Bu peth amrywiad pan y'u dadansoddir yn ôl misoedd unigol dros y tair blynedd ddiwethaf, yn neilltuoel y tu allan i'r prif dymor twristiaeth. Roedd canran ymwelwyr tramor a gofnodwyd yn Rhagfyr 2008 a 2009 yn 4%, cyfradd a gododd i 7% yn 2010 cyn gostwng i 3% yn 2011.

Bythynnod a Rhandai Hunanddarpar

Mae'r adran hon yn amlinellu canlyniadau lefel defnydd allweddol ar gyfer bythynnod a rhandai llety hunanddarpar ac yn crynhoi'r wybodaeth a gafwyd o sampl o weithredwyr annibynnol ac asiantaethau a ddilyswyd sy'n cynnig bythynnod a rhandai hunanddarpar yng Nghymru. Cynlluniwyd y sampl i fod yn gynrychioladol i raddau helaeth o'r ystod o lety wedi'i ddodrefnu a osodir drwy weithredwyr o'r fath. Mesurir defnydd ar lefel eiddo unigol drwy fynegi nifer yr wythnosau a osodwyd bob mis fel cyfran o'r wythnosau a'r unedau sydd ar gael i'w rhentu.

Dylid nodi nad oedd sampl digonol yn 2007 o asiantaethau hunanddarpar (asiantaethau gosod yn cynnig bythynnod a rhandai hunanddarpar yng Nghymru) i gynnal dadansoddiad ar wahân ar eu cyfer. Oherwydd hyn, adroddir data asiantaeth ar gyfer 2008 ymlaen.

Maint y Sampl

Mae Tabl 6-1 drosodd yn dangos lefelau ymateb i'r arolwg ar hyd 2011 ar gyfer y gwahanol fathau llety. Mae'n dangos y nifer a ddychwelodd yr arolwg bob mis a'r nifer sydd ar gael i'w gosod oedd yn ffurfio'r sampl ar gyfer dadansoddi. Ni anfonwyd ffurflenni misol at weithredwyr y gwyddem fod eu hunedau ar gau yn ystod misoedd y gaeaf ond cawsant eu cynnwys wrth gyfrif lefel yr ymateb.

Tabl 6-1 Maint y Sampl - Bythynnod a Rhandai Hunanddarpar


	Nifer unedau		
	Dychwelyd Ffurflenni	Ar gau	Sampl Dadansoddi
Ionawr	436	22	414
Chwefror	475	20	455
Mawrth	496	9	487
Ebrill	572	3	569
Mai	583	0	583
Mehefin	590	0	590
Gorffennaf	608	0	608
Awst	605	0	605
Medi	611	0	611
Hydref	578	5	578
Tachwedd	444	16	428
Rhagfyr	451	16	435
Cyfartaledd	543	13	530

Ar gyfartaledd, derbyniwyd data ar gyfer 543 uned bob mis, gan roi maint sampl cyfartalog o 530 uned i'w dadansoddi. Wrth ddehongli'r canlyniadau mae'n bwysig nodi y cafwyd sampl llai yn 2011, yn bennaf oherwydd y dychwelodd gweithredydd gyda nifer fawr o unedau ddata n 2010 ond nid yn 2011.

Defnydd Misol Unedau

Mae Ffigur 6-1 islaw'n cyflwyno cyfraddau defnydd blynyddol ar gyfer 2008 i 2011 ar gyfer gweithredwyr annibynnol ac asiantaethau.

Ffigur 6-1- Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Rhandai CYFAN (%)



Roedd cyfradd fisol defnyddio unedau ar gyfer pob math o annedd yn 2011, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn amrywio'n sylweddol ar hyd y flwyddyn, gan adlewyrchu natur dymhorol y sector. Roedd cyfradd defnydd misol unedau yn 29% yn Ionawr 2011, ffigur a gynyddodd i 85% yn Awst cyn gostwng i 31% yn Nhachwedd a 32% yn Rhagfyr. Rhwng Mawrth ac Ebrill 2011, cynyddodd y gyfradd fisol yma gan 25 pwynt canran, gan adlewyrchu effaith cyfnod Gwyliau'r Pasg a Gŵyl Banc ychwanegol oherwydd y Briodas Frenhinol. Y cyfartaledd blynyddol ar gyfer pob uned yn 2011 oedd 54%.

Gostyngodd cyfartaledd Mai i Hydref ychydig bob blwyddyn rhwng 2008 a 2010, gyda'r gostyngiad cyffredinol yn ystod y cyfnod o 61% i 59%. Yn 2011 cynyddodd y ffigur hwn i 69%, gyda chyfraddau defnydd uwch ym Mai a Medi 2011 wedi effeithio arnynt (65% a 72% yn 2011 o gymharu â 53% a 60% yn 2010). Roedd cyfradd flynyddol defnydd unedau ar gyfer 2011 naw pwynt canran yn is na chyfradd 2010 o 45% a'r defnydd blynyddol cyfartalog uchaf o unedau a gofnodwyd ers 2008. Pan y'u dadansoddir yn ôl misoedd unigol, medrir gweld yr amrywiad mwyaf y naill ben i brif dymor yr haf, gyda chynnydd yn Ebrill, Mai a Medi (fel y disgrifiwyd yn flaenorol). Yn ychwanegol, roedd cyfradd Tachwedd 2011 (31%) naw pwynt canran yn uwch na chyfradd 2010 o 22%.

Mae Tabl 6-2 ar y dudalen nesaf yn cyflwyno cyfraddau defnydd 2011 ar gyfer gweithredwyr unigol. Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad, rhoddwyd data o 2007 i 2010 hefyd i ddangos tueddiadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Tabl 6-2 - Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Rhandai - Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2007	2008	2009	2010	2011
Ionawr	22	23	24	22	24
Chwefror	40	40	39	34	39
Mawrth	43	43	37	36	32
Ebrill	54	48	55	56	62
Mai	69	61	62	58	60
Mehefin	76	67	70	67	59
Gorffennaf	86	76	80	73	69
Awst	93	87	88	86	87
Medi	73	69	72	67	69
Hydref	60	52	55	49	48
Tachwedd	32	26	27	27	25
Rhagfyr	39	42	36	34	30
<i>Cyf. Mai - Hydref</i>	<i>76</i>	<i>69</i>	<i>71</i>	<i>67</i>	<i>65</i>
<i>Cyf. Blynnyddol</i>	<i>57</i>	<i>53</i>	<i>54</i>	<i>51</i>	<i>50</i>

Cyfradd gyfartalog defnydd unedau ar gyfer gweithredwyr annibynnol yn 2011 oedd 50%, gostyngiad bach ar gyfradd 2010 o 51% a'r isaf a gofnodwyd ar gyfer y gweithredwyr hyn ers 2007. Bu gostyngiad bychan hefyd yng nghyfartaledd Mai i Hydref o 67% yn 2010 i 65% yn 2011, eto'r gyfradd isaf a gofnodwyd am y pum mlynedd ddiwethaf. Pan y'u dadansoddir yn ôl mis, cofnodwyd y gostyngiadau mwyaf rhwng 2010 a 2011 ar gyfer misoedd Mawrth (pedwar pwynt canran), Mehefin (wyth pwynt canran) a Gorffennaf (pedwar pwynt canran). Fodd bynnag, dechreuodd y flwyddyn yn fwy cadarnhaol na 2010, gyda chyfraddau Ionawr a Chwefror (24% a 39% yn yr un drefn) yn uwch na'r rhai a gofnodwyd am yr un misoedd yn 2010 (22% a 34% yn yr un drefn). Gall hyn fod wedi bod oherwydd amodau tywydd gwell ddechrau 2011 o gymharu â dechrau 2010.

Mae Tabl 6-3 ar y dudalen nesaf yn cyflwyno ffigurau defnydd blynnyddol ar gyfer llety hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau ar gyfer 2008 i 2011. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw data defnydd ar gyfer y mathau hyn o unedau hunanddarpar ar gael ar gyfer 2007.

Tabl 6-3 - Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Rhandai - Asiantaethau (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau			
	2008	2009	2010	2011
Ionawr	24	16	13	34
Chwefror	36	45	35	46
Mawrth	35	44	39	44
Ebrill	47	49	44	64
Mai	51	52	49	69
Mehefin	51	43	56	70
Gorffennaf	59	54	64	73
Awst	78	63	78	84
Medi	58	51	56	75
Hydref	44	36	21	62
Tachwedd	23	17	20	40
Rhagfyr	29	57	38	34
<i>Cyf. Mai – Hydref</i>	<i>57</i>	<i>50</i>	<i>54</i>	<i>72</i>
<i>Cyf. blynyddol</i>	<i>45</i>	<i>44</i>	<i>43</i>	<i>58</i>

Yn 2011, roedd y gyfradd fisol ar gyfer defnydd unedau a osodwyd gan asiant yn amrywio o 34% yn Ionawr i 84% yn Awst i 34% yn Rhagfyr. Fel gyda gweithredwyr annibynnol, cofnododd unedau a osodwyd gan asiantaeth gynnydd rhwng Mawrth ac Ebrill 2011 (o 44% i 64%), gan adlewyrchu cyfnod Gwyliau'r Pasg a'r Ŵyl Banc ychwanegol. Cyfrannodd amodau tywydd gwell yn gynnar yn 2011 a newidiadau yn y sampl fel y disgrifiwyd yn flaenorol at gynnydd yn y cyfartaledd misol ar gyfer Ionawr, oedd 21% pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd ar gyfer yr un mis yn 2011.

Roedd y gwahaniaethau rhwng 2010 a 2011 yn fwyaf amlwg yn ystod misoedd Mai i Hydref, gyda chyfradd gyfartalog defnydd unedau am y cyfnod hwn o 72% o gymharu â 54% yn 2010. Cofnodwyd y cynnydd mwyaf yn ystod y misoedd hyn ym Mai (20 pwynt canran) a Medi (19 pwynt canran). Tu allan i gyfnod Mai i Hydref, cofnodwyd cynnydd o 20 pwynt canran yng nghyfran gyfartalog defnydd unedau ar gyfer Tachwedd yn 2011 (40% o gymharu gyda 20% yn Nhachwedd 2011).


Dylid nodi y bu gostyngiad ym maint sampl asiantaethau yn 2011 fydd wedi effeithio ar gyfraddau defnydd. Ni ddychwelodd asiantaeth a gyflwynodd ddata ar gyfer rhwng 199 a 300 uned ffurflenni yn 2011 ac adlewyrchir hynny yn y canlyniadau defnydd ar gyfer y flwyddyn hon o gymharu gyda 2010.

Tueddiadau Rhanbarthol

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r lefelau defnydd ar draws gwahanol ranbarthau Cymru ar gyfer bythynnod a rhandai. Gan nad oedd unrhyw ffigurau defnydd tueddiadol 2007 ar gael ar gyfer llety hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau, rydym wedi cyflwyno data o 2008 ymlaen, a ffigurau defnydd ar gyfer gweithredwyr annibynnol o 2007 ymlaen. Mae siart islaw pob tabl yn dangos y ffigurau defnydd ar gyfer pob rhanbarth rhwng 2008 a 2011.

Tabl 6-4 - Defnydd Misol Unedau – Gogledd - Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2007	2008	2009	2010	2011
Ionawr	25	25	31	23	31
Chwefror	45	42	40	44	42
Mawrth	42	45	38	39	31
Ebrill	59	47	53	61	62
Mai	73	61	71	68	68
Mehefin	83	70	74	73	62
Gorffennaf	90	76	85	78	72
Awst	92	85	88	86	87
Medi	77	72	82	73	75
Hydref	63	52	68	57	55
Tachwedd	37	25	38	31	24
Rhagfyr	40	38	38	36	30
<i>Cyf. Mai - Hydref</i>	<i>80</i>	<i>69</i>	<i>78</i>	<i>72</i>	<i>70</i>
<i>Cyf. blynyddol</i>	<i>61</i>	<i>53</i>	<i>59</i>	<i>56</i>	<i>53</i>


Ffigur 6-2 - Defnydd Misol Unedau – Gogledd – 2008 - 2011 CYFAN (%)

Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau yn y Gogledd ychydig yn uwch yn 2011 nag yn 2009 (57% a 56% yn yr un drefn) ac yn gyfartal â'r hyn a gofnodwyd yn y rhanbarth yma yn 2009. Roedd cynnydd o un pwynt canran yng nghyfartaledd Mai i Hydref rhwng 2010 a 2011 (71% i 72%) gyda'r ffigur hwn yn parhau ychydig yn is nag yn 2009 (74%). Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyfraddau cyfartalog defnydd unedau ar gyfer Ionawr i Ebrill wedi cynyddu'n gyffredinol, tra gostyngodd y cyfraddau a gofnodwyd ar gyfer misoedd yr haf o Fehefin a Gorffennaf dros y tair blynedd ddiwethaf.

Tabl 6-5 - Defnydd Misol Unedau - Canolbarth - Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2007	2008	2009	2010	2011
Ionawr	24	25	16	16	18
Chwefror	41	40	40	27	38
Mawrth	42	41	40	38	28
Ebrill	48	53	59	60	65
Mai	59	66	64	58	56
Mehefin	70	63	70	66	61
Gorffennaf	85	78	81	74	70
Awst	93	89	91	88	91
Medi	73	68	70	66	71
Hydref	61	54	54	44	51
Tachwedd	24	27	23	27	28
Rhagfyr	35	46	31	37	34
Cyf. Mai - Hydref	74	70	72	66	67
Cyf. blynyddol	55	54	53	50	51

Ffigur 6-3 - Defnydd Misol Unedau - Canolbarth - 2008 - 2011 CYFAN (%)




Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd cyfraddau defnydd y Canolbarth yn amrywio'n sylweddol ar draws y flwyddyn yn 2011. Roedd cyfradd Ionawr 2011 yn 18%, ffigur a gynyddodd i 91% yn Awst cyn gostwng i 28% yn Nhachwedd. Fel gyda'r rhanbarthau eraill, ac eithrio'r Gogledd, roedd cyfradd Rhagfyr 2011 yn uwch nag a gofnodwyd ar gyfer y mis blaenorol, gyda chynnydd o chwe phwynt canran rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2011 ar gyfer y Canolbarth. Parhaodd cyfartaledd Mai i Hydref i gynyddu yn 2011, gyda chyfradd o 67% (o gymharu gyda 52% yn 2010 a 44% yn 2009), cyfradd debyg i'r hyn a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarth yma yn 2008 (66%). Ni wnaeth y gostyngiad yn y cyfartaledd blynyddol a gofnodwyd rhwng 2008 a 2010 (48% i 41%) barhau yn 2011, yn hytrach bu cynnydd o ddeg pwynt canran i 51% yn 2011 ar gyfer y rhanbarth yma.

Dylid nodi nad oedd data ar gael ar gyfer unedau hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau yn rhanbarth y De Ddwyrain yn ystod 2011 ac fe wnaeth y gostyngiad ym maint y sampl ddylanwadu ar gyfraddau defnydd y rhanbarth yma yn 2011.

Tabl 6-6 - Defnydd Misol Unedau – De Cymru – Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2007	2008	2009	2010	2011
Ionawr	19	18	22	26	23
Chwefror	37	38	37	31	37
Mawrth	44	41	34	32	35
Ebrill	51	46	56	50	59
Mai	69	59	52	52	59
Mehefin	72	64	67	63	57
Gorffennaf	82	74	74	70	67
Awst	94	90	86	85	84
Medi	67	66	65	63	64
Hydref	57	51	47	48	42
Tachwedd	34	29	21	24	24
Rhagfyr	41	46	37	30	27
<i>Cyf. Mai - Hydref</i>	74	67	65	63	62
<i>Cyf. blyneddol</i>	56	52	50	48	48

Ffigur 6-4 - Defnydd Misol Unedau – De – 2008 - 2011 CYFAN (%)




Cynyddodd cyfradd gyfartalog defnydd unedau ar gyfer unedau ar draws y De o 23% yn Ionawr i 84% yn Awst, gyda chyfraddau o 24% yn Tachwedd a 27% yn Rhagfyr 2011. Bu lefelau defnydd yn y De yn gyffredinol gyson dros y tair blynedd ddiwethaf yn ystod prif dymor yr haf, gyda chyfartaledd Mai i Hydref yn yr ystod 62% - 65%. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd unedau a gofnodwyd yn Ebrill 2011 naw pwynt canran yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer yr un mis yn 2010 (59% a 50% yn yr un drefn), gan adlewyrchu amseriad cyfnod Gwyliau'r Pasg a Gŵyl Banc ychwanegol oherwydd y Briodas Frenhinol. Ers 2008, gostyngodd cyfradd gyfartalog defnydd unedau ym mis Awst o 90% i 84%, tra gostyngodd y gyfradd ar gyfer Rhagfyr gan 19 pwynt canran dros y cyfnod.

Tabl 6-7 - Defnydd Misol Unedau – De Ddwyrain – Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2007	2008	2009	2010	2011
Ionawr	38	25	28	54	37
Chwefror	51	55	28	52	45
Mawrth	47	43	28	32	36
Ebrill	50	57	54	53	54
Mai	66	64	46	53	56
Mehefin	69	63	68	58	56
Gorffennaf	76	77	83	67	67
Awst	87	89	83	75	74
Medi	58	75	67	54	57
Hydref	63	73	58	57	45
Tachwedd	54	49	38	40	32
Rhagfyr	64	63	59	57	38
Cyf. Mai - Hydref	-	73	67	61	59
Cyf. blyneddol	60	61	53	55	50

Ffigur 6-5 - Defnydd Misol Unedau – De Ddwyrain – 2008 - 2011 CYFAN (%)



Dechreuodd 2011 gyda chyfradd gyfartalog defnydd unedau o 37% yn Ionawr yn y De Ddwyrain, cyfradd a gododd i 74% yn Awst cyn gostwng i 32% yn Nhachwedd. Mae cyfraddau ar gyfer y De Ddwyrain wedi tueddu i amrywio dros y blyneddau, yn arbennig yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror. Ers 2008, gostyngodd cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer y De Ddwyrain o 73% i 59%, gyda'r gostyngiad misol mwyaf sylweddol wedi'i gofnodi ar gyfer mis Awst (89% yn 2008 i 74% yn 2011). Cyfartaledd blyneddol 2011 yw'r isaf a gofnodwyd ar gyfer y rhanbarth yma ers 2008.

Dylid nodi nad oedd unrhyw ddata ar gael ar gyfer unedau hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau yn rhanbarth y De Ddwyrain yn ystod 2011.

Tabl 6-8 - Defnydd Misol Unedau – De Orllewin – Annibynnol (%)

	Defnydd Cyfartalog Unedau				
	2007	2008	2009	2010	2011
Ionawr	13	16	20	16	17
Chwefror	33	32	40	25	34
Mawrth	43	40	36	32	34
Ebrill	51	44	56	50	61
Mai	70	58	53	52	59
Mehefin	73	64	67	64	58
Gorffennaf	84	74	73	70	66
Awst	96	90	86	87	87
Medi	70	64	65	65	67
Hydref	55	44	44	45	41
Tachwedd	28	22	17	20	21
Rhagfyr	34	39	29	24	24
<i>Cyf. Mai i Hydref</i>	-	66	65	64	63
<i>Cyf. blynyddol</i>	54	49	49	46	48

Mae lefelau defnydd ymysg yr holl weithredwyr yn y De Orllewin unwaith eto'n dangos natur dymhorol y sector, gan amrywio o 17% yn Ionawr i 87% yn Awst cyn gostwng i 21% yn Nhachwedd a 24% yn Rhagfyr. Bu cyfartaledd Mai i Hydref ar gyfer y rhanbarth yma yn yr ystod 63% - 65% ers 2008, sy'n arddangos cryn dipyn o gysondeb rhwng y blynyddoedd yn y prif dymor twristiaeth ar gyfer y rhanbarth. Dros y tair blynedd ddiwethaf, misoedd Awst a Medi ddangosodd y cysondeb mwyaf gyda chyfraddau cyfartalog misol defnydd unedau yn yr ystod 86-87% a 65%-67% yn yr un drefn.

Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau 2011 (48%) ddau bwynt canran yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn 2010. Mae cynnydd o 11 pwynt canran rhwng 2010 a 2011 ar gyfer mis Ebrill, adlewyrchiad o amseriad cyfnod Gwyliau'r Pasg a'r Ŵyl Banc ychwanegol oherwydd y Briodas Frenhinol yn 2011, wedi effeithio ar y cynnydd yma.

Dylid nodi nad oedd unrhyw ddata ar gael ar gyfer unedau hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau yn rhanbarth y De Orllewin yn ystod 2011.

Defnydd yn ôl Lleoliad - Arfordirol o gymharu â Mewndirol

Dadansoddwyd data defnydd ar gyfer unedau mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae Tabl 6-9 islaw'n dangos y cyfraddau defnydd ar gyfer gweithredwyr annibynnol ynghyd â thueddiadau data 2007 i 2011.

Tabl 6-9 - Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad - Annibynnol (%)

	Lleoliadau arfordirol Defnydd Unedau (%)					Lleoliadau mewndirol Defnydd Unedau (%)				
	2007	2008	2009	2010	2011	2007	2008	2009	2010	2011
Ionawr	20	21	25	23	28	24	22	19	22	21
Chwefror	40	44	44	32	44	40	40	35	30	36
Mawrth	47	47	40	39	39	37	41	33	33	29
Ebrill	60	55	51	58	66	45	50	58	52	59
Mai	74	67	70	60	71	61	63	55	52	56
Mehefin	83	72	76	72	70	66	64	67	61	55
Gorffennaf	90	78	85	81	78	79	77	76	68	64
Awst	95	93	95	93	92	91	89	86	84	84
Medi	78	72	79	77	77	65	69	66	60	65
Hydref	62	49	58	58	55	56	55	49	43	45
Tachwedd	29	23	21	25	25	38	29	24	25	25
Rhagfyr	36	42	34	29	29	44	44	36	34	30
Cyf. Bl.	60	55	57	54	56	54	54	50	47	47

Yn 2011, cofnododd unedau a osodwyd yn annibynnol mewn lleoliadau arfordirol gyfradd defnydd blynyddol tramor uwch na'r rhai mewn ardaloedd mewndirol (56% a 47% yn yr un drefn). Pan y'u dadansoddir yn ôl mis, roedd y gwahaniaethau mwyaf rhwng cyfraddau cyfartalog defnydd unedau arfordirol a mewndirol ar gyfer unedau annibynnol ym Mai a Mehefin (pymtheg pwynt canran yr un). Fodd bynnag, cofnododd unedau mewndirol gyfradd gyfartalog defnydd unedau ychydig yn uwch ar gyfer Rhagfyr (30% o gymharu â 29% ymysg unedau arfordirol).

Rhwng 2010 a 2011, cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau ar gyfer gweithredwyr annibynnol mewn lleoliadau arfordirol gan ddau bwynt canran tra parhaodd y gyfradd ar gyfer unedau mewndirol yn ei hunfan.

Tabl 6-10 - Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad - CYFAN (%)

	Lleoliadau arfordirol Defnydd Unedau (%)				Lleoliadau mewndirol Defnydd Unedau (%)			
	2008	2009	2010	2011	2008	2009	2010	2011
Ionawr	21	24	23	28	24	21	23	24
Chwefror	44	43	33	44	41	36	34	41
Mawrth	47	40	39	39	42	35	36	36
Ebrill	55	51	58	66	49	60	55	61
Mai	66	70	60	71	60	60	56	63
Mehefin	72	76	72	70	64	67	62	62
Gorffennaf	78	85	81	78	74	76	69	70
Awst	93	95	93	92	86	87	83	82
Medi	72	79	77	77	67	69	63	67
Hydref	49	58	58	55	50	50	45	47
Tachwedd	23	21	25	25	24	28	28	29
Rhagfyr	42	34	29	29	39	41	35	31
Cyf. Blynnyddol	55	56	54	56	52	52	49	51

Fel mewn blynnyddoedd blaenorol, roedd cyfraddau cyfartalog defnydd unedau ar gyfer pob uned mewn ardaloedd arfordirol yn uwch nag ar gyfer unedau mewndirol ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd yn 2011. Roedd y gwahaniaeth amlycaf yn ystod y prif dymor twristiaeth, yn arbennig yn ystod misoedd Awst a Medi pan oedd yr amrywiad rhwng cyfraddau defnydd arfordirol a mewndirol yn ddeg pwynt canran ar gyfer pob mis. Fodd bynnag, cofnododd ardaloedd mewndirol gyfraddau defnydd uwch yn Nhachwedd a Rhagfyr 2011, canfyddiad sydd unwaith eto'n adlewyrchu canlyniadau a gofnodwyd mewn blynnyddoedd blaenorol.

Defnydd yn ôl Tariff

Cyflwynwyd elfen newydd ar gyfer adroddiadau yn 2008 ar gyfer bythynnod a rhandai - dadansoddwyd cyfraddau defnydd yn ôl yr uchafswm tariff wythnosol a godwyd yn ystod y mis. Rhoddir manylion cyfraddau defnydd misol unedau ar gyfer tariff a ddadansoddwyd yn ôl asiantaeth/gweithredwyr asiantaeth yn Atodiad 3a yr adroddiad. Cyflwynir y cyfraddau cyfartalog blyneddol ar gyfer defnydd unedau yn ôl tariff yn Nhabl 6-11 islaw.

Cofnododd unedau ym mhob un o'r bandiau tariff gyfraddau cyfartalog blyneddol tebyg ar gyfer defnydd unedau yn 2011 o 49% - 50%. Mae Tabl 6-11 islaw'n dangos y cyfraddau defnydd misol ar draws pob band tariff. Mae mwy o fanylion dan Atodiad 3a.

Tabl 6-11 - Defnydd Cyfartalog Misol Unedau yn ôl Tariff (%)

	Tariff			
	Defnydd Unedau (%)			
	<£299.99	£300 -£499.99	£500 - £799.99	£800+
Ionawr	15	28	19	32
Chwefror	31	54	33	18
Mawrth	22	37	23	23
Ebrill	55	63	69	62
Mai	69	54	67	66
Mehefin	86	55	65	64
Gorffennaf	66	62	65	76
Awst	93*	80	88	92
Medi	59	67	72	58
Hydref	37	49	47	46
Tachwedd	24	24	15	26
Rhagfyr	27	23	26	26
Cyfartaledd Blyneddol	49	50	49	49

*=sampl <5

Fe wnaeth anheddau yn codi llai na £800 ddechrau'r flwyddyn gyda chyfraddau defnydd uwch yn Ionawr na'r rhai yn y bandiau tariff is, a all adlewyrchu tariffau uwch dros gyfnod y Flwyddyn Newydd. Cofnododd unedau yn codi £300-£499.99 gyfraddau cyfartalog uwch ar gyfer defnydd unedau ym Mawrth ac Ebrill, yn ogystal â rhwng Medi a Thachwedd 2011 na'r rhai mewn categorïau tariff eraill. Cofnodwyd y cyfraddau cyfartalog uchaf ar gyfer defnydd unedau yng Ngorffennaf ac Awst 2011 gan unedau gyda thariff o £800 neu fwy (76% a 92% yn yr un drefn).

Defnydd yn ôl Graddiad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd ar gyfer unedau yn ôl eu haelodaeth o Gynllun Graddiad Croeso Cymru. Mae Tabl 6-12 islaw'n dangos y cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd unedau yn ôl graddiad.

Ac eithrio unedau 2 seren, a gofnododd y defnydd cyfartalog blynyddol uchaf ar gyfer unedau yn 2011 (65%), cynyddodd lefelau defnydd yn ôl graddiad seren. Cofnododd unedau gyda graddiad 5 seren gyfradd gyfartalog defnydd unedau oedd 7 pwynt canran yn uwch na'r rhai yn y categori 3 seren (54% a 48% yn yr un drefn). Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y cyfartaledd blynyddol ar gyfer unedau heb eu graddio yn is nag ar gyfer unedau wedi'u graddio, yn arbennig rai gyda graddiad 5 seren. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir yn 2011 gyda chyfradd o 55% wedi'i gofnodi ar gyfer unedau heb eu graddio.

Dylid nodi nad oedd gan unrhyw unedau yn arolwg eleni raddiad un seren. Hefyd, mae maint y sampl ar gyfer unedau 2 seren yn is nag ar gyfer y categorïau eraill, felly dylid cymryd rhywfaint o ofal gyda'r canlyniadau hyn ac mae'r sampl heb ei raddio yn is oherwydd na wnaeth gweithredwr mawr gyda nifer fawr o unedau ddychwelyd ffurflenni data yn 2011.

Tabl 6-12 - Defnydd Cyfartalog Misol Unedau yn ôl Graddiad (%)

	Graddiad Seren				
	Defnydd Unedau (%)				
	2 Seren	3 Seren	4 Seren	5 Seren	Dim graddiad
Ionawr	31	31	23	19	26
Chwefror	48	39	39	38	44
Mawrth	53	31	31	29	46
Ebrill	84	56	59	71	62
Mai	75	61	56	69	71
Mehefin	92	50	56	71	70
Gorffennaf	98	62	66	78	76
Awst	98	79	86	94	80
Medi	87	63	65	78	72
Hydref	53	43	46	60	49
Tachwedd	29	23	27	22	35
Rhagfyr	28	32	33	24	31
Cyfartaledd Blynyddol	65	48	49	54	55

Mae Tabl 6-12 uchod hefyd yn rhoi dadansoddiad o gyfraddau misol defnydd yn ôl graddiad. Roedd y cyfraddau cyfartalog defnydd unedau uchaf ar gyfer unedau yn y categori graddiad 2 seren ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd yn 2011, gyda'r gwahaniaeth rhwng yr unedau hyn ac unedau 5 seren yn llai amlwg yn ystod misoedd Awst a Medi. Cofnododd unedau heb eu graddio gyfraddau cyfartalog misol uwch ar gyfer defnydd unedau nag unedau 5 seren y tu allan i'r prif dymor twristiaeth, yn arbennig ym mis Tachwedd gyda chyfraddau o 35% a 22% yn yr un drefn. Fodd bynnag, y gwrthwyneb oedd yn wir yn ystod misoedd yr haf, yn arbennig yn Awst 2011, pan gofnododd unedau 5 seren gyfradd cyfartalog o 94% ar gyfer defnydd unedau o gymharu gyda 80% ymysg unedau heb eu graddio.

Cartrefi Gwyliau Carafán a Chabannau

Yn yr adran hon adroddwn ar yr wybodaeth a gasglwyd gan weithredwyr yn cynnig carafanau sefydlog (a/neu gabannau) ar osod. Caiff defnydd ei fesur ar gyfer nifer yr unedau a osodwyd yn ystod y cyfnod adrodd hyd at y cyfanswm sydd ar gael i'w gosod yn ystod y cyfnod hwnnw.

Maint y Sampl

Mae Tabl 7-1 islaw yn rhoi manylion lefelau ymateb i'r arolwg ar hyd 2011 ar gyfer y gwahanol fathau llety. Mae'n dangos y nifer a ddychwelodd ffurflen i'r arolwg bob mis a'r nifer unedau oedd ar gael i'w gosod oedd yn ffurfio'r sampl ar gyfer dadansoddi. Ni anfonwyd ffurflenni misol at weithredwyr y gwyddem fod eu hunedau ar gau yn ystod misoedd y gaeaf, ond cawsant eu cynnwys wrth gyfrif y lefelau ymateb.

Tabl 7-1 - Maint y Sampl - Cartrefi Gwyliau Carafán


	Nifer parciau		
	Anfon Ffurflenni	Ar Gau	Sampl Dadansoddi
Ionawr	D/G	D/G	D/G
Chwefror	D/G	D/G	D/G
Mawrth	30	11	19
Ebrill	23	0	23
Mai	23	1	23
Mehefin	23	0	23
Gorffennaf	25	0	25
Awst	25	0	25
Medi	27	0	27
Hydref	37	3	23
Tachwedd	D/G	D/G	D/G
Rhagfyr	D/G	D/G	D/G
Cyfartaledd	31	7	24

Ar gyfartaledd, dychwelwyd 31 ffurflen bob mis, gan roi maint sampl cyfartalog o 24 i'w ddadansoddi.

Defnydd Misol Unedau

Mae Ffigur 7-1 islaw'n cyflwyno'r cyfraddau defnydd ar gyfer 2007 i 2011 ar gyfer cartrefi gwyliau carafán. Fel y nodwyd yn yr adran methodoleg uchod, casglwyd ffigurau defnydd yn 2011 yn ystod Mawrth-Hydref. Oherwydd y nifer isel o ffurflenni defnydd a ddychwelwyd ym Mawrth 2007 a 2008, dim ond ar gyfer cyfnod mis Ebrill - mis Hydref y cyflwynir canlyniadau misol ar gyfer y blynedd hyn.

Ffigur 7-1 - Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan (%)



Rhwng Mawrth ac Ebrill 2011, cynyddodd defnydd misol unedau ar gyfer cartrefi gwyliau carafán gan 61 pwynt canran, gan ddangos pwysigrwydd cyfnod gwyliau'r Pasg i'r sector llety yma, yn ogystal â'r Wyl Banc ychwanegol oherwydd y Briodas Frenhinol. Hefyd, mae'n debygol yr agorodd nifer fwy o safleoedd yn Ebrill i fanteisio ar gyfnod gwyliau'r Pasg a'r Wyl Banc. Rhwng Mai a Medi, roedd cyfraddau cyfartalog defnydd misol unedau yn amrywio rhwng 79%-93%, gyda'r gyfradd uchaf yn Awst.

